



Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Ymgynghori Budd- ddeiliaid Allweddol

Medi 2018

Papur 1: Materion Blaenoriaeth,
Gweledigaeth ac Amcanion

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

Gallwn ddarparu'r ddogfen hon ar CD, yn electronig neu mewn print mawr a gallwn ei chyfieithu i ieithoedd eraill, cysylltwch â y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Cynnwys

1	Rhagarweiniad	4
2	Y prif ffactorau i'w hystyried wrth Gynllunio, Creu Lleoedd a chreu Cymunedau Cynaliadwy. 6 Ailstrwythuro CDLI presennol Conwy (2017-2022).....	10
4	'Gweledigaeth' ar gyfer CDLI Newydd Conwy.....	12
5	Materion Blaenoriaeth ac 'Amcanion' CDLI Newydd Conwy.....	16
6	Y Camau Nesaf	37
	Atodiad 1 - Papurau Tystiolaeth Cefndir	38
	Atodiad 2 Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLI Newydd).....	42

1 Rhagarweiniad

1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) wrthi'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd (CDLI Newydd) yn lle'r un blaenorol, ar gyfer y cyfnod 2018-2033. Unwaith y bydd wedi'i fabwysiadu, bydd yn disodli'r cynllun presennol (2007 – 2022). Y CDLI yw cynllun defnydd tir y Cyngor, fydd yn sefydlu ble a faint o ddatblygu o'r newydd sydd i ddigwydd yn y Fwrdeistref Sirol rhwng 2018-2033. Bydd hefyd yn adnabod pa ardaloedd fydd yn cael eu gwarchod rhag datblygu.

1.2 Bydd y CDLI Newydd yn cael ei baratoi'n unol â Chytundeb Darparu mabwysiedig y Cyngor (Ebrill 2018) sy'n cyflwyno'r amserlen a sut y byddwn yn ymgynghori â'r gymuned. Y man cychwyn pennaf gyda chyflawni'r adolygiad yw'r CDLI presennol (2007 – 2022), yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a'r Adroddiad Adolygu. Yr ymgynghoriad Cyfranogi Cyn Adneuo hwn ar Faterion ac Opsiynau yw'r cam cyntaf mewn paratoi'r CDLI Newydd ac mae'n cynnwys y dogfennau ymgynghori a ganlyn:

1. **Papur Ymgynghori 1: Materion Blaenoriaeth, Gweledigaeth ac Amcanion (gan gynnwys y bwriad i ailstrwythuro'r CDLI presennol (2007-2022)). Y Papur hwn.**

2. Papur Ymgynghori 2: Opsiynau Dosbarthu Gofodol a Thwf Strategol

3. Cyfres o Bapurau Pwnc:

- Tai
- Economi, Sgiliau a Chyflogaeth
- Manwerthu
- Twristiaeth
- Cyfleusterau Cymunedol
- Yr Amgylchedd Naturiol
- Yr Amgylchedd Hanesyddol
- Trafnidiaeth
- Ynni Adnewyddadwy
- Mwynau a Gwastraff
- Lles, Iechyd a Chydraddoldeb
- Ardaloedd Hamdden

4. Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA / SEA).

5. Papurau Tystiolaeth Cefndir (Atodiad 1)

1.3 Yng ngham hwn proses y CDLI Newydd, mae ffocws yr ymgynghori ar gyfranogi a thrafod gyda'r budd-ddeiliaid allweddol a nodir yng Nghytundeb Darparu'r CDLI Newydd. Nid yw'n statudol ofynnol i'r Cyngor ymgynghori gyda'r cyhoedd ar hyn o bryd. Bydd hynny'n digwydd yng ngham nesa'r broses pan fyddwn yn ymgynghori ar Strategaeth a Ffafir y CDLI Newydd. Fodd bynnag, cyn gwneud dim byd arall, mae cael y budd-ddeiliaid allweddol o gwmpas y bwrdd i drafod y dystiolaeth a'r opsiynau strategol, y strategaeth a ffafir a chynigion cysylltiedig, yn allweddol i greu consensws.

Mae'r **Papur 1 hwn ar Faterion Blaenoriaeth, Gweledigaeth ac Amcanion** yn rhan o gyfres o ddogfennau i oleuo camau cyntaf y gwaith o baratoi'r CDLI Newydd. Mae'r Papur hwn yn holi eich barn gychwynol am y tri chynnig canlynol:

Cynnig 1: Strwythur y CDLI Newydd

Mae'r Papur hwn yn holi eich barn am Strwythur y CDLI Newydd. Rhaid gwneud hyn er mwyn ystyried Deddf Gynllunio (Cymru), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

(Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Rhaid hefyd ystyried y Polisi Cynllunio Cymru Drafft (Argraffiad 10) yng nghyswllt y cysyniad o Greu Lleoedd a datblygu strwythur y CDLI Newydd.

Cynnig 2: 'Gweledigaeth' y CDLI Newydd

Mae'r Papur hwn hefyd yn holi eich barn am Weledigaeth newydd ar gyfer y CDLI Newydd. Mae'n ystyried polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a hefyd y dystiolaeth hyd yma a gyflwynir yn y Papurau Pwnc a'r Papurau Cefndir ategol.

Cynnig 3: Materion Blaenoriaeth ac Amcanion y CDLI Newydd

Ar ôl ystyried y dystiolaeth hyd yma, mae'r Papur hefyd yn cyflwyno cyfres o amcanion ar gyfer cyflawni'r weledigaeth. Mae'r rhan yma o'r ddogfen hefyd yn nodi'r prif faterion sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol, wedi eu hysbysu gan Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd, y Papurau Pwnc cysylltiedig a'r Papurau Cefndir sy'n ategu'r CDLI Newydd.

Eich Barn

- 1.4 Defnyddir eich barn a'ch safbwyntiau i'n helpu i baratoi ar gyfer cam nesaf y broses o baratoi'r CDLI Newydd, sef y Strategaeth a Ffafir. Mae cwestiynau penodol yn y ddogfen y byddem yn hoffi i chi eu hateb.
- 1.5 Mae cyfnod ymgynghori'r cam hwn sef Cyfranogi Cyn Adneuo ar Faterion ac Opsiynau yn rhedeg am chwe wythnos rhwng 17 Rhagfyr 2018 a 25 Ionawr 2019 fel y nodir hynny yng Nghytundeb Darparu CDLI Newydd Conwy. Gallwch anfon eich sylwadau atom drwy lenwi'r holiadur ymgynghori electronig sydd ynghlwm. Neu, os oes angen copi papur o'r holiadur arnoch, cysylltwch os gwelwch yn dda â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol.

Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol

Drwy ffonio: 01492 575461; neu

Drwy e-bostio: cdll-ldp@conwy.gov.uk

Gwefan: <http://www.conwy.gov.uk/cdlln>


2 Y prif ffactorau i'w hystyried wrth Gynllunio, Creu Lleoedd a chreu Cymunedau Cynaliadwy

2.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi penderfynu fod angen adolygu'r CDLI presennol (mabwysiadwyd Hydref 2013) er mwyn gallu paratoi CDLI Newydd a'i fabwysiadu cyn i'r CDLI presennol ddod i ben yn 2022. Ystyrir bod angen CDLI Newydd er mwyn ystyried amrediad o Ddeddfau, fframweithiau polisi, rhaglenni, tystiolaeth a materion gofodol newydd ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ers mabwysiadu'r CDLI presennol. Mae'r rhan yma o'r Papur yn eich cyflwyno i'r prif ffactorau sy'n effeithio ar greu cymunedau cynaliadwy ac, yn y pen draw, ar baratoi CDLI Newydd Conwy. Mae'n manylu ar ddeddfwriaeth newydd bwysig a basiwyd ers mabwysiadu'r CDLI presennol. Mewn ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd hon, ynghyd ag asesiad o'r dystiolaeth, mae'r adran yma'n cynnig strwythur newydd ar gyfer y CDLI Newydd. Mae hefyd yn tynnu sylw at y dulliau o asesu'r CDLI Newydd i sicrhau bod lleoedd cynaliadwy'n cael eu creu. Byddem yn hoffi clywed eich barn am hyn cyn symud ymlaen at 'Weledigaeth ac Amcanion' y CDLI Newydd nes ymlaen yn y Papur hwn. Mae llawer iawn o wybodaeth i'w hystyried, ond credir bod hynny'n hanfodol i ddeall y strwythur a'r cyfeiriad sydd mewn golwg ar gyfer y CDLI Newydd.

Cynllunio a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

- 2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD) yn rhoi dyletswydd ar gyrfwr cyhoeddus i **ddatblygu'n gynaliadwy** wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae Deddf LICD yn cyflwyno saith nod llesiant (**Diagram 1**) y mae'n rhaid i CDLI Newydd Conwy weithio tuag atynt. Nid yw'r cysyniad o ddatblygu cynaliadwy'n un newydd i'r system gynllunio oherwydd mae egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi bod wrth galon polisiâu cynllunio ers tro byd. Fodd bynnag, mae'r cysyniad wedi'i ehangu o dan Ddeddf LICD ac felly rhaid ei ystyried wrth baratoi'r CDLI Newydd.
- 2.3 Gyda chyflwyno Deddf LICD, yn ogystal â Deddf Gynllunio (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae angen ystyried ailstrwythuro'r cynnwys a'r prosesau asesu sy'n rhan o'r CDLI mabwysiedig fel bo'r cynllun yn ystyried y gofynion deddfwriaethol hyn.

Diagram 1: Saith nod llesiant Deddf LICD



- 2.4 Mae Deddf LICD hefyd yn sefydlu'r 'Pum Ffordd o Weithio' y mae angen i gyrrf cyhoeddus ddangos eu bod yn eu gweithredu wrth gyflawni eu dyletswydd datblygu cynaliadwy ac wrth baratoi'r CDLI Newydd. Mae ystyried y ffyrdd hyn o weithio'n rhan annatod o'r system gynllunio. Bydd angen i Gonwy egluro sut y bydd yn gweithredu fel hyn wrth ddatblygu a darparu'r CDLI Newydd. Y pum ffordd o weithio yw **'Tymor Hir', 'Atal', 'Integreiddio', 'Cydwethredu' a 'Cynnwys'**.
- 2.5 Wrth ystyried sut y gall y Pum Ffordd o Weithio drosi'n benodol i'r system gynllunio yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi adnabod **pum 'Egwyddor Gynllunio' allweddol (Diagram 2)** fel man cychwyn ar gyfer paratoi'r CDLI Newydd. Mae Diagram 2 yn dangos yn glir sut y mae'r pum egwyddor gynllunio allweddol yn cysylltu i'r 'Ffyrdd o Weithio' yn Neddf LICD. Wrth baratoi'r CDLI Newydd yn erbyn yr egwyddorion hyn, bydd modd i'r nodau a'r ffyrdd o weithio a ddisgrifir yn Neddf LICD a Deddf yr Amgylchedd gael eu gwireddu drwy gynhyrchu'r CDLI Newydd. Mae'r egwyddorion yn rhoi'r cyd-destun ac yn gatalydd ar gyfer darparu'r system gynllunio'n gadarnhaol drwy Gymru. Bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu hystyried ymhellach yn SA/SEA Conwy ac yn gweithredu fel man cychwyn i oleuo tystiolaeth, gweledigaeth, amcanion, polisïau, dyrannu tir ac i fonitro'r CDLI Newydd yn y dyfodol.

Diagram 2: Pum Egwyddor Gynllunio Allweddol Llywodraeth Cymru

1. I hwyluso'r math iawn o ddatblygiad yn y lle iawn

Mae angen i'r system gynllunio weithio mewn ffordd ragweithiol a **chydweithredol** i sicrhau bod y datblygiad iawn yn y lle iawn i ddiwallu anghenion cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd. Yr un pryd, rhaid gwneud y defnydd gorau o'r seilwaith sy'n bod a bod seilwaith newydd yn cael neu'n gallu cael ei ddarparu a lle bo angen, bydd modd cydlynu'r hyn a ddarperir. Wrth gyflawni'r egwyddor hon, bydd angen edrych ar y tymor hir ac integreiddio ac alinio blaenoriaethau trwy sicrhau bod proffesiynau a fframweithiau amlddisgyblaethol yr amgylchedd adeiledig a naturiol, y trydydd sector a'r cyhoedd yn cydweithio fwy â'i gilydd i sicrhau'r canlyniadau gorau posib sy'n esgor ar fanteision diwylliannol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a deimlir ymhell y tu hwnt i ffiniau lle neu ddatblygiad.

2. Gwneud y defnydd gorau o adnoddau

Mae'r system gynllunio yn **cyd-fynd** mewn sawl ffordd â defnyddio adnoddau naturiol. Mae pen draw i faint o dir sydd ar gael, a dylid felly ei ddefnyddio'n ddoeth, ond mae dylanwad y system yn cynnwys hefyd ymladd yn erbyn y problemau **tymor hir** sy'n gysylltiedig â hinsawdd sy'n newid, cymryd camau i ddatgarboneiddio a chreu economi gylchol a sicrhau buddiannau i'r amgylchedd adeiledig a naturiol. Cynhelir yr egwyddor 'agosrwydd' i sicrhau bod problemau'n cael eu datrys yn lleol yn hytrach na'u pasio i leoedd eraill neu genedlaethau'r dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod tir ac adnoddau eraill yn cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy yn y tymor hir.

3. Hybu Amgylcheddau Hygyrch ac Iach

Dylai'r system gynllunio fod ar gael i bawb ei defnyddio. Dylai gyflenwi lleoedd o ansawdd sy'n ddiramgwydd ac yn gynhwysol i bob aelod o gymdeithas a dylai'r system ei gwneud yn rhwydd yr un pryd i ddevis ffordd iach o fyw. Y ffordd orau o wneud hyn yw trwy sicrhau **cyfranogaeth** a **chydweithrediad** eraill i sicrhau y deallir ac y **rhwystrir** problemau cyn gynted ag y meddir.

4. Creu a Chynnal Cymunedau

Mae'r system gynllunio'n gallu gweithio mewn ffordd **integredig** gan gryfhau ei chyfraniad at les pobl, fel bod cymunedau gwledig a threfol cydlynol sydd wedi'u dylunio'n dda yn cael eu creu trwy sicrhau'r cydbwysedd priodol o ddefnyddiau a dwyseddau i greu llefydd y mae pobl am fod ynddyn nhw, gan fodloni'r angen am ddatblygu newydd.

5. Rhoi'r amddiffyniad gorau i'r amgylchedd a chyfyngu'r effeithiau ar yr amgylchedd

Mae angen amddiffyn ein hadnoddau naturiol a diwylliannol a'n pobl, eiddo a seilwaith ac mae angen cyfyngu ar yr effeithiau amgylcheddol, hynny er lles ehangach y cyhoedd. Mae hyn yn golygu: bod angen meddwl yn y **tymor hir** i barchu terfynau'r amgylchedd a gweithio mewn ffordd **integredig** fel nad yw adnoddau'n cael eu difrodi'n barhaol neu eu dihysbyddu; dilyn yr egwyddor "y llygrwr sy'n talu" os nad oes modd osgoi llygru; dilyn yr egwyddor ragofalus i sicrhau na chaiff mesurau costeffeithiol i rwystro difrod difrifol i'r amgylchedd eu gohirio am fod ansicrwydd gwyddonol ynghylch difrifoldeb y perygl.


Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghymru drwy 'Greua Lleoedd'

- 2.6 Mae Creu Lleoedd Cynaliadwy'n un o brif nodau'r system o gynllunio defnydd tir yng Nghymru; dyma allbwn y broses gynllunio. Dylai bob penderfyniad datblygu, naill ai drwy gynhyrchu'r CDLI Newydd neu drwy benderfyniadau rheoli datblygu unigol, geisio cyfrannu at greu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy.
- 2.7 Bydd y pethau sy'n gwneud lle'n gynaliadwy yng Nghonwy'n amrywio o un lle i'r llall. Bydd gan bob man neu le ei nodweddion, hanes a hunaniaeth unigryw ei hun, ar sail sut y mae a sut y bydd pobl yn rhyngweithio â fo, gan ei wneud yn unigryw. Mae'r 'naws lle' hwn yn amrywio, o berfeddion cefn gwlad sy'n creu sylfaen economaidd ac amgylcheddol fel bod amaeth a thwristiaeth yn gallu ffynnu, i ardaloedd trefol y gellir eu hadnewyddu drwy adfywio a newid.
- 2.8 Mae creu lleoedd cynaliadwy'n broses gynhwysol, gan gynnwys pawb sydd â diddordeb proffesiynol neu bersonol yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol, ac yn canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau, gwneud penderfyniadau a chyflwyno datblygiadau sy'n cyfrannu at greu a gwneud lleoedd cynaliadwy'n well.
- 2.9 Mae creu lleoedd wrth wneud penderfyniadau datblygu'n digwydd ar bob lefel ac yn cynnwys ystyried pethau ar lefel fyd-eang, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd, i lawr i'r lefel leol fel ystyried yr effaith ar amwynder pobl ac eiddo cyfagos. Mae'r system gynllunio a chynhyrchu CDLI Newydd Conwy'n gyfrwng rheoli allweddol i ddarparu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy. Mae'n cynnig dull creiddiol lle mae cyfleoedd i ennill budd hirdymor a gwneud penderfyniadau integredig yn cwrdd er mwyn gallu canfod atebion ataliol a rhagweithiol.

Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy

- 2.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cyfres o **Ganlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy** (Diagram 3) i helpu i sicrhau bod penderfyniadau datblygu'n cael eu gwneud yn holistig a thrwy ystyried y nodau llesiant mor gynnar yn y broses ddatblygu â phosib pryd y gellir ennill y mwyaf o fudd. Dylai'r canlyniadau hyn, er yn tynnu sylw at nodweddion cynaliadwy'r datblygiad adeiledig terfynol, fod yn fan cychwyn ar gyfer cynigion datblygu ac ar gyfer asesu cyfeiriad priodol y CDLI Newydd. Bydd y canlyniadau hyn yn cael eu hystyried ymhellach yn y SA/SEA ac yn goleuo cyfeiriad y CDLI Newydd.
- 2.11 Felly, i sicrhau bod CDLI Newydd Conwy'n cyfrannu at **saith nod llesiant Deddf LICD (Diagram 1)**, yr **'egwyddorion cynllunio'** allweddol (**Diagram 2**) ac yn cyfrannu at **Leoedd Cynaliadwy**, mae'n hanfodol bod y CDLI Newydd yn ceisio tywys datblygu sy'n ateb y Canlyniadau Cenedlaethol ar Greu Lleoedd Cynaliadwy (**Diagram 3**).

Diagram 3: Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy




Polisi Cynllunio Cymru Drafft (Argraffiad 10)

- 2.12 PPW yw dogfen bolisi genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gynllunio defnydd tir. Fe'i cyhoeddwyd gyntaf yn 2002 ac ers hynny mae wedi'i ddiweddarau bump o weithiau. Mae PPW wedi'i atodi gan Nodiadau Cyngor Technegol (TAN), Cylchlythyrau a llythyrau gweinidogol. Mae'n rhoi'r cyd-destun polisi ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) ac yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio ac apeliadau.
- 2.13 Pan oedd Deddf Gynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cael eu datblygu, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ailstrwythuro PPW yn unol â'r ddeddfwriaeth uchod. Roedd y PPW drafft newydd (Argraffiad 10) hefyd yn ceisio hyrwyddo'r cysyniad o 'greu lleoedd' wrth ddatblygu cynlluniau a gwneud penderfyniadau rheoli datblygu, sy'n ganolog i'r amcanion ehangach yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ymgynghorwyd ar y PPW drafft (Argraffiad 10) rhwng 12 Chwefror a'r 18 Mai 2018. Er bod Argraffiad newydd y PPW ar ffurf drafft, mae'r Papur 1 hwn yn ei ystyried yn llawn wrth baratoi i ailstrwythuro CDLI Newydd Conwy. Bydd unrhyw newidiadau a wneir i'r PPW terfynol yn cael eu hadlewyrchu yng nghamau diweddarach y gwaith o baratoi CDLI Newydd Conwy.
- 2.14 O ran strwythur newydd y PPW, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y prif ffactorau gan fwriadu ail-lunio'r meysydd polisi cynllunio presennol i fod yn unol â'r saith nod llesiant yn Neddf LICD. Ar ôl edrych ar y nodau a'u mesur yn erbyn y Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, mae'r meysydd polisi wedi eu grwpio o dan bedwar pennawd thematig sef '**Creu Lleoedd**', '**Lleoedd Bywiog a Chymdeithasol**', '**Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus**' a '**Lleoedd Unigryw a Naturiol**' sy'n dangos eu perthynas â'i gilydd. Er enghraifft, mae'r bennod ar 'Lleoedd Bywiog a Chymdeithasol' yn cynnwys datganiadau polisi ar dai, manwerthu, cyfleusterau cymunedol, manau agored a thrafnidiaeth. Mae pob pennod yn nodi'r cysylltiadau rhwng y maes polisi a'r canlyniadau creu lleoedd ac yn cyfeirio at y berthynas gyda'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- 2.15 Mae Pennod 2 y PPW drafft yn cyfeirio at 'greu lleoedd' ac mae paragraff 2.1 yn nodi bod "yn rhaid i bawb sy'n ymwneud â, neu'n gweithio yn y system gynllunio yng Nghymru gofleidio'r cysyniad o greu lleoedd wrth ddatblygu cynlluniau a gwneud penderfyniadau rheoli datblygu os am lwyddo i greu lleoedd cynaliadwy".
- 2.16 Mae Diagram 4 isod yn ceisio dangos y broses y dylid arwain CDLI Newydd Conwy drwyddi i greu lleoedd cynaliadwy yng Nghonwy.

Diagram 4: Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy



3 Ailstrwythuro CDLI presennol Conwy (2017-2022)

- 3.1 Er bod Datblygu Cynaliadwy un elfen graidd o CDLI presennol Conwy, mae wedi'i strwythuro o gwmpas themâu allweddol a gysylltir i weledigaeth ac amcanion cyffredinol y Cynllun. Mae'r gofynion deddfwriaethol a ddisgrifir uchod yn Neddf LICD yn cyflwyno rhwymedigaeth i wella lles neu lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn bod cyrff cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol) yn meddwl yn fwy hirdymor, yn gweithio'n well gyda phobl a chymunedau, yn meddwl am atal problemau a gweithio'n fwy cydgysylltiedig wrth ddarparu datblygu cynaliadwy. Gan hynny cynigir bod y strwythur CDLI presennol yn cyd-fynd â'r goblygiadau gwella a nodir yn Neddf LICD a WP Conwy a Sir Ddinbych (h.y. cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol) ac yn ystyried y prif feysydd pwnc a nodir yn y PPW drafft (rhifyn 10). Mae hyn yn sicrhau edau aur glir o'r canllawiau cenedlaethol a bod y meysydd polisi allweddol yn cael eu cynllunio i gyflawni nodau Deddf LICD a Chreu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy. Bydd unrhyw newidiadau i'r PPW terfynol yn cael eu hadlewyrchu yng nghanau diweddarach y gwaith o baratoi'r CDLI Newydd. Yn ogystal, gallai rhai meysydd pwnc newid gan ddibynnu ar ganlyniad tystiolaeth gefndir y CDLI Newydd.

Tabl 1: Strwythur Arfaethedig y CDLI Newydd (themâu a meysydd pwnc)

Creu lleoedd	Cymdeithasol	Yr Economi	Yr Amgylchedd a Diwylliant
Creu Mannau Cynaliadwy Dylunio Da Hybu Lleoedd Iachach Y Gymraeg Gwneud Dewisiadau Gofodol Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gweledig	Tai Canolfannau Manwerthu a Masnachol Cyfleusterau Cymunedol Mannau Hamdden Trafnidiaeth	Datblygu Economaidd Twristiaeth Yr Economi Wledig Seilwaith Cludiant Ynni Mwynau & Gwastraff	Tirwedd Ardaloedd Arfordirol Yr Amgylchedd Hanesyddol Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth Dwr, Aer, Seinwedd a Golau Llifogydd Dadrisgio

Cwestiwn1: Ydych chi'n cytuno y dylid cysoni'r strwythur CDLI Newydd i adlewyrchu rhwymedigaethau Deddf LICD a'r meysydd pwnc a nodir yn PPW Drafft (rhifyn 10), i fod yr un fath a'r ***hyn a nodir yn Nhabl 1?***

4 'Gweledigaeth' ar gyfer CDLI Newydd Conwy

- 4.1 Rhan gynnar o baratoi'r cynllun yw penderfynu a chytuno â'r Budd-ddeiliaid Allweddol ar y Weledigaeth a'r Amcanion y mae angen i'r CDLI roi sylw iddynt. Dylai'r CDLI Newydd fod yn seiliedig ar weledigaeth glir wedi'i chytuno gan y gymuned a budd-ddeiliaid eraill, yn nodi'n glir a chryno sut y mae lleoedd yn cael eu cynllunio i ddatblygu, newid neu gael eu gwarchod. Mae'r CDLI presennol yn cynnwys Gweledigaeth hirfaith, fodd bynnag teimlwn y dylai Gweledigaeth y CDLI Newydd fod yn fwy pwrpasol a chryno ac yn trosi'n ddi-dor i Amcanion, Strategaeth Ofodol, Polisiâu, Dyraniadau Tir a Gwaith Monitro'r cynllun.

Y weledigaeth arfaethedig ar gyfer CDLI Newydd Conwy yw sicrhau:

Erbyn 2033, bydd Sir Conwy yn parhau fel ardal sy'n ffynnu yng Ngogledd Cymru gyda' economi gynaliadwy wedi'i 'adeiladu ar egwyddorion sydd yn hyrwyddo tyfiant ac yn uchafu cyfleon i bawb gan ddiogelu tirwedd â threftadaeth unigryw yr ardal ynghyd a'u 'asedau amgylcheddol ehangach. Bydd adnewyddu'r ffocws ar gynllunio lle ac adfywio yn sicrhau bod datblygiadau o safon uchel yn cefnogi creu llefydd iach â dirgrynl gyda thai, cyflogaeth â thyfiant isadeiledd yn gyfeiriol at leoliadau cynaliadwy sydd yn cwrdd ac anghenion preswylwyr, gweithwyr ac ymwelwyr.

Drwy gwell mewnfuddsoddiad, darpariaeth isadeiledd ac amddiffyniad cryf o'r iaith Gymraeg, bydd Conwy yn dod yn beiriant twf i economi â diwylliant Gogledd Cymru. Mi fydd yn le cystadleuol, mwy cynwysedig, yn cynnig safon byw da i bawb, gyda gwell ansawdd amgylcheddol â llesiant ar gyfer y genhedlaeth hon ac i'r dyfodol. Golyga hyn y bydd gan Conwy rwydwaith o drefydd â phentrefydd llewyrchus ynghyd a economi wledig ddichonadwy sydd yn gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd naturiol.

Cyflawni'r weledigaeth

- 4.2 Bydd y weledigaeth hon i Gonwy yn cael ei chyflawni gan holl ddeiliaid diddordeb ymglymedig a chynllunio drwy ddilyn y 5 ffordd o weithio (cynnwys, cydweithredu, atal, integreiddio, hirdymor,) ac yn ymdrechu i drosglwyddo datblygiadau cynaliadwy. Bydd ffocws ymdrechion cynllunio lle ac adfywio ar drosglwyddo atebion yn seiliedig ar le ar gyfer cymdeithas, economi, amgylchedd â sialensiau diwylliannol sydd yn wynebu'r ardal. Felly bydd y weledigaeth yn cael ei gweithredi drwy fynd i'r afael a'r amcanion a nodir yn yr adran nesa' gan hefyd weithredu polisi a chynigion cysylltiol.
- 4.3 Dengys y paragraffau canlynol pam y cynigiwn y Weledigaeth hon ar gyfer y CDLI Newydd.
- 4.4 Mae'r berthynas gyda Chynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych (CCBC/DCC WP), a gynhyrchwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, yn arbennig o bwysig. Dylai CDLI gyfrannu mynegiant defnydd tir y gyd-weledigaeth ar gyfer sut y bydd ardal yn newid. Dylai'r CDLI Newydd adnabod yr agweddau hynny ar y CCBC/DCC WP sydd angen eu mynegi'n ofodol.
- 4.5 Yn ogystal â'r CCBC/DCC WP, mae hefyd angen i'r Weledigaeth sydd mewn golwg ystyried nodau Deddf LICD a Chynllun Gofodol Cymru (2008). Mae hefyd angen ystyried Bargen Twf y Gogledd a allai fod â goblygiadau o ran y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sydd wrthi'n cael ei baratoi.
- 4.6 Mae'r manylion isod yn ystyried negeseuon allweddol y dogfennau hyn sydd yna'n cael eu trosi i Weledigaeth arfaethedig y CDLI Newydd.

Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych 2018 - 2023

- 4.7 Mae CCBC/DCC WP hefyd wedi'i ategu gan saith nod llesiant Deddf LICD, felly hefyd strwythur arfaethedig y CDLI Newydd. Sefydlwyd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i wella:
- Lles diwylliannol
 - Lles economaidd
 - Lles amgylcheddol
 - Lles cymdeithasol
- 4.8 Yn benodol, mae'r CCBC/DCC WP eisiau i bawb "fwynhau lles da". Mae'n disgrifio'r heriau a wynebhir gan gymunedau gyda ffocws ar dri maes blaenoriaeth:
- Pobl – Cefnogi Lles Meddwl Da i bobl o bob oed
 - Cymuned – Cefnogi Grymuso Cymunedol
 - Lle – Cefnogi Gwydnwch Amgylcheddol
- 4.9 Yna mae'n adnabod pedair egwyddor sy'n cefnogi'r blaenoriaethau hyn:
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thrin pawb yn gyfartal
 - Cefnogi a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg
 - Cefnogi pobl i gael mynediad at gartrefi iach, diogel a phriodol
 - Osgoi dyblygu gwaith.
- 4.10 Mae'r Cynllun yna'n adnabod nifer o feysydd i'w hystyried a allai gyfrannu'n gadarnhaol at y blaenoriaethau a'r egwyddorion hyn.
- 4.11 **Neges allweddol i Weledigaeth y CDLI Newydd:** Mae'r Weledigaeth arfaethedig yn ceisio creu lleoedd cynaliadwy, gyda phwyslais cryf ar leoedd mwy iach a hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd strwythur arfaethedig y CDLI Newydd a themâu yn cael eu darparu drwy amrywiol feysydd pwnc fel tai, cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol ac ati, sydd mewn sefyllfa dda i ddarparu elfennau defnydd tir a pholisi cynllunio'r CCBC/DCC WP. Er enghraifft, bydd y thema 'Cymdeithasol' yn ceisio hyrwyddo tir / polisi i ddarparu tai marchnad a thai fforddiadwy priodol, cyfleusterau cymunedol, ardaloedd hamdden, sydd i gyd yn bethau fydd yn cael effaith dda ar les. Mae Atodiad 2 i'r Papur hwn yn cyflwyno matrices sy'n asesu'r Weledigaeth arfaethedig yn erbyn elfennau gofodol a defnydd tir y CCBC/DCC WP. Dengys y matrices yn glir y bydd Gweledigaeth a Strwythur arfaethedig y CDLI Newydd mewn sefyllfa i gyfrannu'n gadarnhaol at CCBC/DCC/ WP dros gyfnod y CDLI Newydd sef 2018 – 2033.

Cynllun Gofodol Cymru a Bargaen Twf y Gogledd

- 4.12 Cafodd Gynllun Gofodol Cymru (WSP) ei ddiweddarau yn 2008 ac er bod gwaith yn mynd rhagddo ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) a Bargaen Twf y Gogledd, sy'n debygol o ddod i rym dros y cyfnod o baratoi'r CDLI, mae'n parhau i fod yn gynllun cyfeiriol defnyddiol a pherthnasol ar gyfer cynllunio yn yr is-ranbarth ehangach. Mae Bargaen Twf y Gogledd yn ennill momentwm sylweddol a gallai'r sbardunau economaidd a'r prosiectau strategol a hyrwyddir drwyddi fod â goblygiadau i'r fframwaith NDF yn y dyfodol (neu i'r Cynllun Datblygu Strategol os caiff ei baratoi) ac, felly, bydd angen iddi fod yn ffactor wrth ystyried materion ac opsiynau ar gyfer CDLI Newydd Conwy.

- 4.13 **Cynllun Gofodol Cymru (WSP):** Mae'r WSP (2008) yn cynnwys gweledigaeth gyffredinol ar gyfer Cymru gyfan ynghyd â gweledigaethau a strategaethau ar wahân ar gyfer pob un o chwe ardal y cynllun gofodol. Lleolir Conwy'n bennaf yn Ardal Strategol Gogledd Ddwyrain Cymru ac yn rhannol yn Ardal y Gogledd Orllewin. Mae'r prif ffocws ar yr aneddiadau a leolir yn fwyaf cynaliadwy ar hyd yr A55. Yn benodol, Prif Aneddiadau Cynradd Bae Colwyn, Llandudno, Cyffordd Llandudno a Chonwy, ac edrychir hefyd ar Brif Aneddiadau Llanrwst, Penmaenmawr a Llanfairfechan fel aneddiadau allweddol i wireddu'r weledigaeth ar gyfer yr ardal ofodol hon.
- 4.14 **Neges allweddol i Weledigaeth y CDLI Newydd:** Dylid rhoi ffocws allweddol ar ddarparu twf i leoliadau cynaliadwy sy'n cynnig hygyrchedd rhagorol. Nid yw'r WSP yn ystyried yr effaith ar aneddiadau eraill yn ardal y Cynllun, a bydd angen canolbwyntio ar rai ohonynt i ddarparu anghenion ac adfywio cymunedol a lleoedd cynaliadwy'n gyffredinol. I gyflawni'r negeseuon allweddol hyn, mae'r Weledigaeth sydd mewn golwg yn canolbwyntio ar Gonwy'n gyffredinol ac nid yn benodol ar yr ardaloedd yn WSP. Mae hefyd yn hyrwyddo lleoedd cynaliadwy a chreu lleoedd cynaliadwy.
- 4.15 **Bargen Twf y Gogledd:** Paratowyd Bargen Twf y Gogledd mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac mae'n ymwneud â Rhanbarth Gogledd Cymru i gyd. Bydd ffactorau economaidd y Fargen yn dylanwadu ar fframwaith y NDF a hefyd ar sut olwg a ffurf fydd ar y Fwrdeistref Sirol yn y blynnydoedd nesaf. Mae'n cynnwys y weledigaeth ganlynol:

'..yn rhanbarth hyderus a chydlynus gyda thwf economaidd cynaliadwy, sy'n manteisio ar lwyddiant sectorau economaidd o werth uchel a'n cysylltiad i economi Pwergy'r Gogledd ac economi Iwerddon'.

- 4.16 Mae Gweledigaeth Twf y Gogledd yn seiliedig ar dair egwyddor, sef:
- **Y Gogledd Clyfar** – arloesi mewn sectorau o werth uchel i wella perfformiad economaidd
 - **Y Gogledd Cysylltiedig** – gwella'r seilwaith trafniadaeth a digidol i wella cysylltedd i'r rhanbarth ac oddi mewn iddo
 - **Y Gogledd Gwydn** – cadw ein pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau i sicrhau twf cynhwysol
- 4.17 Mae'r Fargen Twf yn nodi y bydd y Weledigaeth yn cael ei darparu drwy gyfuno adnoddau mewn cynllunio trafniadaeth strategol, datblygu economaidd, cyflogaeth a sgiliau a defnydd tir strategol i gefnogi cynllunio a darparu cydweithredol. Felly, dylid ystyried y pethau hyn wrth lunio Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth y CDLI Newydd. I oleuo'r CDLI Newydd, mae BP/18 'Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy' wedi asesu effaith Bargen Twf Gogledd Cymru o ran twf swyddi, polisïau a dyrannu tir. Mae hefyd wedi asesu goblygiadau Strategaeth Economaidd Conwy o ran opsiynau, polisïau a dyrannu tir ar gyfer twf swyddi.
- 4.18 **Neges allweddol i Weledigaeth y CDLI Newydd:** Neges sylfaenol y Weledigaeth yw y bydd lleoedd cynaliadwy, drwy broses gynhwysol o ' greu lleoedd', yn cael eu creu a'u gwella yng Nghonwy a bydd twf economaidd yn cael ei wireddu. Yn benodol, bydd y thema 'Economi' mewn sefyllfa dda i sicrhau bod yr amcanion, strategaeth, polisïau a'r dyraniadau tir yn cyfrannu'n gadarnhaol i dwf economaidd cynaliadwy, a

bydd hynny yn ei dro'n cyfrannu at ddarparu Gogledd Cymru wydn. Bydd y dystiolaeth yn BP/18 yn sicrhau bod y lefelau twf a'r dosbarthiad gofodol yn y CDLI Newydd yn lleoli cyflogaeth mewn mannau hygyrch i gysylltu'n strategol i economi Pwery'r Gogledd ac economi Iwerddon. Bydd lleoliadau o'r fath o dan thema 'Economi' hefyd yn sicrhau bod gwelliannau trafniadaeth a seilwaith digidol yn cael eu hyrwyddo. At ei gilydd, bydd y Weledigaeth arfaethedig mewn sefyllfa dda i weithredu'r Fargen Twf drwy broses gynhwysol o 'greu lleoedd' a ffocws ar hyrwyddo a gwneud y mwyaf o dwf.

- 4.19 I asesu'r Weledigaeth ymhellach yn erbyn y cynlluniau a'r strategaethau hanfodol, mae matrices asesu wedi'i gynhyrchu yn Atodiad 2.

Cwestiwn 2: *Ydych chi'n meddwl mai dyma'r Weledigaeth iawn ar gyfer CDLI Newydd Conwy?*

Cwestiwn 3: *Ydych chi'n meddwl bod y Weledigaeth mewn sefyllfa dda i ddarparu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy?*

5 Materion Blaenoriaeth ac 'Amcanion' CDLI Newydd Conwy

- 5.1 Mae amcanion y CDLI yn nodi beth y mae'r Cynllun yn ceisio ei gyflawni ar ôl deall beth yw'r prif broblemau neu faterion sy'n effeithio ar y Fwrdeistref Sirol. Maent yn adlewyrchu'r Weledigaeth sydd mewn golwg ac wedi'u llunio ar ôl adolygu'r cyd-destun polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ehangach, y dystiolaeth sylfaenol a nodi'r materion cynaliadwyedd cychwynnol yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd. Drwy'r tasgau hyn rydym wedi gallu deall y cyd-destun ehangach a chanfod beth yw'r prif faterion ac amcanion sydd angen i CDLI Newydd Conwy roi sylw iddynt. Ar ben hynny, mae amcanion a pholisïau cynllunio'r CDLI presennol hefyd wedi eu hadolygu, er enghraifft pa mor aml y defnyddir hwynt wrth wneud penderfyniadau rheoli datblygu a / neu pa mor effeithiol oeddent mewn apeliadau cynllunio diweddar. Mae'r Papurau Materion ac Opsiynau unigol, ynghyd â'r Papurau Pwnc a'r Papurau Cefndir ategol, yn nodi beth yw canlyniadau'r tasgau hyn a'r goblygiadau i'r CDLI Newydd.
- 5.2 Defnyddiwyd y materion cynllunio a chynaliadwyedd allweddol i lunio'r amcanion sydd mewn golwg ar gyfer y CDLI Newydd (yn Nhabl 2 isod), a fydd yn eu tro'n cyflawni'r Weledigaeth arfaethedig. Mae'r amcanion wedi eu strwythuro'n unol â Gweledigaeth, themâu a meysydd pwnc arfaethedig y CDLI Newydd. Mae rhai o'r amcanion sydd mewn golwg hefyd yn ymdrin â nifer o faterion unigol. Er mwyn cysondeb, noda'r tabl y materion allweddol, y ffynonellau a'r amcanion sy'n deillio ohonynt, sydd wedi'u grwpio o dan Strwythur arfaethedig y CDLI Newydd (Themâu a Meysydd Pwnc). Mae rhai o'r amcanion arfaethedig yn ymdrin â nifer o faterion gwahanol. Mae'r amcanion sydd mewn golwg hefyd wedi'u profi yn erbyn yr Amcanion Cynaliadwyedd a nodir yn Adroddiad Cwmpasu'r SA (wele BP04). Yn yr un modd â'r Weledigaeth, mae'r amcanion yn fan dechrau a gallant newid unwaith y bydd y dystiolaeth wedi'i gwblhau.

Tabl 2 Amcanion Arfaethedig y CDLI Newydd

Materion Allweddol a Phroblemau (Arfarniad Cynaliadwyedd a Chynllunio)	Ffynhonnell	Amcan Arfaethedig i ymdrin â'r Mater / Problem
Creu lleoedd		
<p>Creu lleoedd cynaliadwy, gwneud dewisiadau gofodol a chreu lleoedd mewn aneddiadau trefol a gwledig: Yn unol â'r Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Chanlyniadau Creu lleoedd cynaliadwy, mae angen sicrhau bod y CDLI Newydd yn hwyluso'r datblygiad iawn yn y lle iawn. Mae angen i'r CDLI Newydd hybu ffyniant drwy ateb anghenion cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd. Dylid hyrwyddo gwneud y defnydd gorau o'r seilwaith sydd gennym, a lle bo angen seilwaith newydd, rhaid iddo gyd-fynd â datblygu newydd.</p> <p>Mae hefyd angen cyd-fynd â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) newydd ar gyfer Cymru, Bargaen Twf y Gogledd ac efallai o baratoi SDP posib ar gyfer Coridor yr A55.</p> <p>Nid yw'r CDLI presennol mabwysiedig (2007-2022) yn ystyried y canllawiau polisi newydd yng nghyswllt lleoedd cynaliadwy ac felly cynigiwn amcan newydd.</p>	<p>Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) Drafft</p> <p>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a Drafft (Argraffiad 10)</p> <p>Egwyddorion Cynllunio Allweddol Llywodraeth Cymru</p> <p>Canlyniadau Creu lleoedd cynaliadwy Llywodraeth Cymru</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Bargaen Twf y Gogledd</p> <p>Y CDLI presennol mabwysiedig (2007-2022)</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcan Strategol 1 (SO1): Cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol ac at wella lles yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses gynhwysol o greu ac adfywio lleoedd sy'n sicrhau twf yn y dyfodol a bod datblygu'n digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, sy'n ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd iachach, sy'n gwarchod yr iaith Gymraeg ac sydd wedi'i chefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd rhagorol.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: Pob Amcan</p>
<p>Lleoedd iach a lles: Mae angen rhoi sylw i'r materion iechyd a lles penodol sy'n cael eu hadnabod yng Nghynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych, gan gynnwys yng nghyswllt iechyd corfforol a meddwl, lles cymdeithasol a diogelwch cymunedol. Gan hynny, mae angen ehangu cwmpas y CDLI mabwysiedig (2007 – 2022).</p> <p>At ei gilydd, mae preswylwyr CCBC yn perfformio ychydig yn well na'r cyfartalog yng Nghymru o ran dangosyddion iechyd fel gordewdra, salwch meddwl ac yfed alcohol. Fodd bynnag, mae cysondeb yr ymarfer corff ac</p>	<p>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015</p> <p>Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych (2017 – 2023)</p> <p>Papur Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcan Strategol 1 (SO1): Cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol ac at wella lles yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses gynhwysol o greu ac adfywio lleoedd sy'n sicrhau twf yn y dyfodol a bod datblygu'n digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, sy'n ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd iachach, sy'n gwarchod yr iaith Gymraeg ac sydd wedi'i chefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd rhagorol.</p>

<p>achosion derbyn i'r ysbyty am resymau alcohol gryn dipyn yn waeth nag yng ngweddill Cymru.</p> <p>Mae angen gwarchod a gwella mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau gofal iechyd, lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella iechyd meddwl a chorfforol a lles cymunedau. Mae angen hwyluso neu annog pobl i deithio'n llesol neu wneud ymarfer corff a gwella ansawdd a hygyrchedd pobl at fannau awyr agored. Dylai'r CDLI Newydd hefyd nodi'r anghydraddoldeb iechyd amlwg ymhlith preswylwyr ardal CCBC o'i gymharu â'r lefelau cyfartalog rhanbarthol a chenedlaethol. Dylai ddisgrifio'r cynigion, polisïau a'r canllawiau i'w dilyn er mwyn diogelu a gwella amwynder, ansawdd bywyd a chanlyniadau iechyd (meddwl a chorfforol) pawb yn ardal CCBC, h.y. y gweithlu a'r preswylwyr.</p>		<p>Amcanion Cysylltiedig: Pob Amcan</p>
<p>Dylunio Da, yr Amgylchedd Adeiledig a Chreu Lleoedd: Mae'n ofynnol i ni wneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir a seilwaith, a gwella ansawdd dylunio, i greu lleoedd gwych i bobl gael byw, gweithio ac ymweld â nhw yng Nghonwy.</p> <p>Mae angen sicrhau bod y CDLI Newydd yn canolbwyntio ar ansawdd dyluniad yr amgylchedd adeiledig, sy'n bwysig o ystyried y cymysgedd o wahanol fathau o aneddiadau a chymeriad gwledig yn bennaf ardal CCBC. Bydd materion dylunio a chreu lleoedd yn berthnasol i rai o elfennau'r CDLI Newydd (e.e. polisïau dylunio a dyrannu safleoedd).</p> <p>Mae angen i'r CDLI Newydd sicrhau ei fod yn hyrwyddo pensaernïaeth a dylunio o safon uchel sy'n cryfhau cymeriad lleol unigryw a'n meithrin naws arbennig cymuned. Mae creu a chynnal tir cyhoeddus diogel a deniadol sy'n annog pobl i gerdded a beicio'n faterion allweddol i'r CDLI Newydd. Dylai datblygiadau fod o faint priodol gyda mas a dwysedd ac mewn lleoliad priodol a gwneud y defnydd gorau o dir, gan gynnwys drwy roi blaenoriaeth i aildatblygu safleoedd tir llwyd a lleoli defnyddiau fydd yn denu cryn dipyn o ymwelwyr yn agos i'r rhwydwaith trafniadaeth gyhoeddus.</p>	<p>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a Drafft (Argraffiad 10)</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcan Strategol 1 (SO1): Cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol ac at wella lles yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses gynhwysol o greu ac adfywio lleoedd sy'n sicrhau twf yn y dyfodol a bod datblygu'n digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, sy'n ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd iachach, sy'n gwarchod yr iaith Gymraeg ac sydd wedi'i chefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd rhagorol.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: Pob Amcan</p>
<p>Creu Lleoedd Cynaliadwy a Gwneud Dewisiadau Gofodol (safleoedd Tir Llwyd ac Aneddiadau gyda Chyfyngiadau): Mae yna brinder tir llwyd i dderbyn twf dros Gyfnod y Cynllun. Mae rhai aneddiadau ar hyd y coridor arfordirol wedi eu cyfyngu'n sylweddol, yn bennaf oherwydd y topograffi i'r de, peryglon llifogydd i'r gogledd ac oherwydd capasiti priffyrdd.</p>	<p>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a Drafft (Argraffiad 10)</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p> <p>Asesiad Perygl Llifogydd Llanw Conwy</p>	<p>Amcan Strategol 1 (SO1): Cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol ac at wella lles yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses gynhwysol o greu ac adfywio lleoedd sy'n sicrhau twf yn y dyfodol a bod datblygu'n digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, sy'n ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd iachach, sy'n gwarchod yr iaith Gymraeg ac sydd wedi'i chefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd rhagorol.</p>

	<p>Adolygiad Atal Llifogydd Conwy</p> <p>Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai</p> <p>Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Llanw Clwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru</p>	<p>Amcanion Cysylltiedig: Pob Amcan</p>
<p>Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cymdeithasol: Mae rhai rhannau o ardal CCBC, yn enwedig yn y cymunedau trefol ar hyd Arfordir y Gogledd, ymhlith rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda lefelau isel o weithgarwch economaidd a mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau, yn enwedig i blant, pobl ifanc a'r henoed. Ond ar y llaw arall, mae ardal wledig ddeheuol CCBC yn cynnwys rhai o'r cymunedau lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Mae angen lleihau tldi ac anghydraddoldeb, mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol, gan gynnwys drwy wella mynediad at gyfleusterau cymunedol. Mae angen sicrhau bod y cymunedau'n agos at gyfleusterau cymunedol, gwasanaethau cyhoeddus ac amwynderau allweddol.</p> <p>Mae angen strategaeth holistig i roi sylw i'r amddifadedd lluosog mewn rhai rhannau o ardal CCBC, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i greu cyfleoedd cyflogaeth newydd o ansawdd uchel. Bydd angen i'r CDLI Newydd gyflwyno strategaeth dir glir ar gyfer cyflogaeth i gefnogi'r cyfleoedd cyflogaeth newydd mewn lleoliadau priodol a hygyrch. Bydd angen i'r CDLI Newydd gynnwys strategaeth adfywio a pholisïau a chynigion cysylltiedig i ysgogi ystod o welliannau ffisegol, amgylcheddol, iechyd ac economaidd-gymdeithasol mewn cymunedau difreintiedig neilltuol.</p>	<p>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015</p> <p>Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych (2017 – 2023)</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcan Strategol 1 (SO1): Cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol ac at wella lles yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses gynhwysol o greu ac adfywio lleoedd sy'n sicrhau twf yn y dyfodol a bod datblygu'n digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, sy'n ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd iachach, sy'n gwarchod yr iaith Gymraeg ac sydd wedi'i chefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd rhagorol.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: Pob Amcan</p>
<p>Yr iaith Gymraeg: Mae Strategaeth Iaith Gymraeg CCBC yn ymrwmo'r Cyngor i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni busnes cyhoeddus. Mae CCBC hefyd yn ymroddedig i helpu i godi proffil yr iaith Gymraeg a'i diwylliant ymhlith preswylwyr a gweithwyr.</p> <p>Mae angen diogelu a chefnogi preswylwyr ardal CCBC i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg. Dylai unrhyw CDLI Newydd gynnwys darpariaethau polisi i gefnogi twf mewn defnyddio'r Gymraeg.</p>	<p>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a Drafft (Argraffiad 10)</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p> <p>Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych (2017 – 2023)</p> <p>Strategaeth Iaith Gymraeg CCBC</p>	<p>Amcan Strategol 1 (SO1): Cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol ac at wella lles yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses gynhwysol o greu ac adfywio lleoedd sy'n sicrhau twf yn y dyfodol a bod datblygu'n digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, sy'n ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd iachach, sy'n gwarchod yr iaith Gymraeg ac sydd wedi'i chefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd rhagorol.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: Pob Amcan</p>

Cymdeithasol

<p>Lefelau Twf Tai Marchnad a Thai Fforddiadwy, Capasiti Datblygwyr, Strategaethau Cydlynus, Math, Maint a Deiliadaeth Tai a Safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.</p> <p>Ateb yr Angen am Dai: Wrth greu lleoedd cynaliadwy yng Nghonwy, bydd angen i'r CDLI Newydd ystyried goblygiadau'r rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf, yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) a'r effeithiau ar dwf swyddi sy'n gysylltiedig ag Adolygiad Tir Cyflogaeth (ELR) Conwy ynghyd â'r ffactorau sy'n ysgogi'r economi ranbarthol sy'n cael eu hyrwyddo ym Margen Twf y Gogledd wrth benderfynu beth fyddai lefelau cynaliadwy o dwf tai a chyflogaeth. O ran tai, ystyriwyd amrywiol ragolygon twf ar gyfer poblogaeth, tai a swyddi sy'n dod i'r casgliad y gallai lefelau twf tai posib amrywio rhwng 1,800 a 17,300 o gartrefi newydd dros gyfnod y cynllun (2018 – 2033). Mae casgliadau'r LHMA wedi eu diweddarau i adlewyrchu rhagolygon poblogaeth 2017 sy'n casglu y bydd angen 190 o dai fforddiadwy'n flynyddol (2850 dros gyfnod y CDLI Newydd). Byddai'r lefelau twf tai arfaethedig yn darparu rhwng tua 360 a 3450 o dai fforddiadwy newydd.</p> <p>Capasiti Datblygwyr: Y lefel ddarparu flynyddol gyfartalog dros y pum mlynedd diwethaf, fel y mae Astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai Conwy wedi'i nodi, yw 244 o gartrefi gyda'r lefel ddarparu uchaf yn 320 o gartrefi newydd yn 2017. Mae angen sicrhau bod y lefel dwf a ddefnyddir yn y CDLI Newydd yn ystyried capasiti'r diwydiant codi tai i ddarparu.</p> <p>Strategaeth Cydlynus a Holistig: Bydd yn bwysig i'r CDLI Newydd gyflwyno strategaethau cydlynus a holistig ar gyfer tir ar gyfer tai a chyflogaeth a'r seilwaith cymunedol er mwyn cwrdd ag anghenion presennol ac anghenion yn y dyfodol.</p> <p>Math, Maint a Deiliadaeth Tai: Mae twf araf y boblogaeth, newidiadau naturiol negyddol (mwy'n marw na'n cael eu geni) a rhagolygon y bydd y boblogaeth yn heneiddio'n debygol o greu problem weithlu hirdymor ac yn rhoi mwy o bwysau ar amryw o wasanaethau cyhoeddus. Mae'r ffaith bod pobl ifanc oed gweithio'n symud allan o ardal CCBC yn cyflwyno problem o ran sut i gadw oedolion ifanc yn yr ardal. O ganlyniad mae angen sicrhau bod y CDLI Newydd yn ceisio ateb anghenion tai poblogaeth sy'n heneiddio ond, ar yr un pryd, sicrhau bod cartrefi newydd yn ceisio cadw'r boblogaeth iau yn yr ardal. Dylai'r tai o ran math (gan gynnwys unedau addas i'r pwrpas), maint a deiliadaeth a ddisgrifir yn y LHMA gael eu hyrwyddo drwy'r CDLI Newydd.</p>	<p>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a Drafft (Argraffiad 10)</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcan Strategol 2 (SO2): Hyrwyddo strategaeth holistig ar gyfer cyd-leoli twf tai a chyflogaeth drwy ddarparu cartrefi newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy a safleoedd ar gyfer sipsiwn a theithiwr, mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch a sicrhau bod y mathau a'r ystod iawn o dai o ran math, maint a deiliadaeth yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r seilwaith cymunedol angenrheidiol.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: SO1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15 ac 16</p>
--	---	---

<p>Astudiaeth o Angen Safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr: Mae'r astudiaeth yn casglu y dylai'r CDLI Newydd hyrwyddo tir i dderbyn safle teithiol ar gyfer saith llain. Mae safle preswyl ar gyfer pedair llain wedi'i ddarparu'n ddiweddar yng Nghonwy.</p>		
<p>Canolfannau Masnachol a Manwerthu: Dylai awdurdodau cynllunio sefydlu, drwy eu cynllun datblygu, strategaeth glir ar gyfer datblygiadau manwerthu, wedi'i chefnogi gan bolisiau, er mwyn creu canolfannau manwerthu a masnachol bywiog, deniadol a hyfyw. Dylai'r strategaeth a'r polisiau gyflwyno fframwaith ar gyfer dyfodol canolfannau manwerthu a masnachol yn eu hardal, gan ystyried strategaethau gan awdurdodau cyfagos, i hyrwyddo sector manwerthu llwyddiannus i gefnogi cymunedau presennol a rhai newydd. I gefnogi hyn mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Cyd-astudiaeth Manwerthu gyda Sir Ddinbych sy'n casglu bod angen canolfan fanwerthu a chymhariaeth fawr rhwng Bae Colwyn a gweddill ardal ddwyreiniol y Fwrdeistref Sirol. Yn ogystal, mae Archwiliadau Iechyd Canol Tref wedi eu cyflawni i asesu pa mor fywiog, hyfyw a deniadol yw'r trefi. Mae rhai trefi yn y Fwrdeistref Sirol yn mwynhau iechyd da a lefelau isel o siopau gwag ond mae eraill wedi gweld dirywiad dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd y ffocws presennol ar bolisi manwerthu A1 ac wrth i rai unedau canol tref gau (e.e. banciau stryd fawr). Drwy'r CDLI Newydd, mae angen sicrhau strategaethau manwerthu priodol i gefnogi'r anghenion, y pwysau a'r cyfleoedd manwerthu hyn. Mewn rhai sefyllfaoedd, gallai fod angen gweithredu'n rhagweithiol i adnabod lleoliadau i ganolfannau masnachol a manwerthu gael ehangu. Dro arall efallai y bydd angen adnabod mesurau i adfywio canolfannau neu reoli newid mewn pwysigrwydd cymharol canolfan wrth i ganolfannau eraill, a'u pwrpas, ehangu.</p> <p>O ganlyniad i bolisi cenedlaethol a thystiolaeth leol, mae angen diwygio'r Amcan Manwerthu yn y CDLI presennol.</p>	<p>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a Drafft (Argraffiad 10)</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcan Strategol 3 (SO3): Darparu canolfannau tref a masnachol deniadol a hyfyw yng Nghonwy drwy ail-ddiffinio eu rôl ac annog amrywiaeth o weithgareddau a defnyddiau.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: SO1, 2, 6, 7, 8, 9, 13, 14 ac 16</p>
<p>Cyfleusterau Cymunedol: Mae cyfleusterau cymunedol yn ateb sawl diben yn ymwneud ag ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau y gellir eu darparu gan y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Mae cyfleusterau cymunedol yn cyfrannu at naws lle, sy'n bwysig i iechyd, lles ac amwynder cymunedau lleol ac yn aml iawn mae eu bodolaeth yn elfen bwysig ar gyfer creu cymunedau hyfyw a chynaliadwy. Medrant gynnwys ysgolion, cyfleusterau diwylliannol, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, rhandiroedd ac addoldai. Mae llawer o'r rhain hefyd yn asedau hanesyddol.</p> <p>Bydd angen mwy o seilwaith cymunedol i gefnogi poblogaeth sy'n gynyddol heneiddio yn ardal CCBC. Mae mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd</p>	<p>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a Drafft (Argraffiad 10)</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcan Strategol 4 (SO4): Cyfrannu at naws lle ac at iechyd, lles ac amwynder cymunedau lleol drwy sicrhau bod gan y boblogaeth bresennol, a'r boblogaeth yn y dyfodol, fynediad at gymysgedd cynaliadwy o gyfleusterau cymunedol.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: SO1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 13, 14 ac 16</p>

<p>gwledig yn broblem benodol, gyda'r naw ardal LSOA ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yn y wlad o ran mynediad at wasanaethau.</p> <p>Ar hyn o bryd mae 53 o ysgolion cynradd a saith ysgol uwchradd yn ardal CCBC. Mae pob ysgol yn gwneud defnydd amrywiol o ieithoedd llafar Saesneg a Chymraeg. Mae rhai o'r ysgolion hyn yn orlawn neu gallent fynd yn orlawn gan ddibynnu ar y cynnydd yn y boblogaeth ac mewn cartrefi newydd yn y dyfodol. Bydd angen i'r CDLI Newydd sicrhau bod y gofynion tir ar gyfer ysgolion newydd yn cael eu darparu i gyd-fynd â'r twf tai.</p> <p>Mae CCBC yn rhedeg deg llyfrgell (Abergele, Conwy, Llanfairfechan, Bae Penrhyn, Cerrigydrudion, Bae Cinmel, Llanrwst, Bae Colwyn, Llandudno a Phenmaenmawr). Mae gan y Sir hefyd bedair canolfan hamdden (Abergele, Colwyn, Llandudno a Phwll Nofio Llanrwst)</p> <p>Fel y mae'r Papurau Pwnc a'r Papurau Cefndir yn ei nodi, mae hefyd angen tir ar gyfer rhandiroedd a mynwentydd. Mae amrywiol sefydliadau lechyd hefyd wedi cyrraedd capasiti ac felly bydd angen i'r CDLI Newydd ddelio ag unrhyw ofynion tir o ganlyniad i dwf.</p> <p>Dylai'r Adolygiad o'r CDLI adnabod seilwaith cymunedol digonol i gwrdd ag anghenion y boblogaeth bresennol a'r boblogaeth yn y dyfodol.</p>		
<p>Ardaloedd Hamdden: Mae ardaloedd hamdden yn hanfodol i iechyd, lles ac amwynder ac yn gallu cyfrannu at seilwaith gwyrdd ardal. Maen nhw'n darparu lle i chwarae ac ymlacio, i wneud gweithgarwch corfforol a chwaraeon, yn aml yng nghanol natur, ac yn cyfrannu at ansawdd ein bywyd. Bydd rhwydweithiau o ardaloedd gwyrdd a hamdden hygyrch o safon uchel hefyd yn hyrwyddo cadwraeth natur, bioamrywiaeth ac yn rhoi cyfle i breswylwyr ac ymwelwyr fwynhau a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol er mwyn hybu lles corfforol a meddwl.</p> <p>Mae angen i'r CDLI Newydd gefnogi datblygu chwaraeon a hamdden, a'r ystod eang o weithgareddau hamdden sy'n annog gweithgarwch corfforol. Mae angen adnabod, rheoli, ehangu a gwella rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys mannau agored cyhoeddus, a chydabod eu pwysigrwydd i ddarparu manteision iechyd, amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol lleol, sy'n bethau y mae Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych yn eu nodi fel materion allweddol. Mae Asesiad Mannau Agored Conwy hefyd yn adnabod lle mae prinder mewn rhai ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol.</p>	<p>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a Drafft (Argraffiad 10)</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcan Strategol 5 (SO5): Annog lles meddwl a chorfforol drwy ddarparu a diogelu rhwydweithiau o ardaloedd hamdden a mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd uchel.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: SO1, 2, 4, 6, 8, 12, 13, 14, 15 ac 16</p>
<p>Trafnidiaeth: Ar hyn o bryd, mae rhannau o'r rhwydwaith priffyrdd yn ardal CCBC yn profi tagfeydd, yn enwedig ar adegau prysur (yr A55 a'r A470). Bydd</p>	<p>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a Drafft (Argraffiad 10)</p>	<p>Amcan Strategol 6 (SO6): Darparu datblygu cynaliadwy a cheisio mynd i'r afael ag achosion y newid</p>

<p>gwelliannau seilwaith mewn ardaloedd trefol a gwledig yn dod â newid sylfaenol i gysylltedd trafndiaeth gyhoeddus a dylid defnyddio hyn i ysgogi twf economaidd a gwella mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau cyhoeddus yn ardal CCBC.</p> <p>Y Rhwydwaith Ffyrdd: Mae'r Rhwydwaith Ffyrdd Craidd yn cysylltu ardal CCBC i'r Bwrdeistrefi Sirol cyfagos ac i ardaloedd consortiwm trafndiaeth rhanbarthol. Mae'r ffyrdd canlynol yn rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Craidd yn ardal CCBC: Yr A55 (llwybr Arfordir y Gogledd) a'r A470 (llwybr canolog). Mae'r ddwy brif ffordd graidd yn cysylltu'r ardaloedd poblogaeth lleol i'r aneddiadau mawr ac yn cyffinio â rhwydweithiau o ffyrdd B a'r holl ffyrdd dosbarthedig di-rif yn ardal CCBC.</p> <p>Trafndiaeth Gyhoeddus: Mae gan Gonwy amryw o orsafoedd rheilffordd trefol (Abergele a Phensarn, Bae Colwyn, Cyffordd Llandudno, Conwy, Penmaenmawr a Llanfairfechan) ar hyd prif linell reilffordd y Gogledd, gyda chysylltiadau i nifer o drefi mawr eraill. Yn ogystal, mae llinell Dyffryn Conwy'n rhedeg o orsaf Llandudno gan gysylltu llawer o'r pentrefi gwledig; Deganwy, Glan Conwy, Tal-y-Cafn, Dolgarrog, Gogledd Llanrwst, Llanrwst, Betws-y-Coed, Pont-y-pant, Dolwyddelan, Pont Rufeinig a Blaenau Ffestiniog. Mae amryw o wasanaethau bws yn cysylltu'r prif aneddiadau yn y Gogledd ynghyd â gwasanaeth bws Sherpa'r Wyddfa sy'n cysylltu i'r chwe phrif lwybr i fyny'r Wyddfa a'r pentrefi o gwmpas.</p> <p>Hedfan a Morol: Mae Maes Awyr John Lennon yn Lerpwl a Maes Awyr Manceinion o fewn siwrne 75 munud o Gonwy, ac mae Maes Awyr Môn (sy'n hedfan i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd) 40 munud i ffwrdd. Mae'n rhoi mynediad at gyrchfannau Cenedlaethol a Rhyngwladol i deithwyr ac o ran cludo nwyddau. Mae'r ddau brif borthladd yng Ngogledd Cymru (Porthladd Caergybi a Phorthladd Mostyn) o fewn 40 munud i Gonwy, gan roi mynediad cenedlaethol a rhyngwladol ar fwrdd fferis / llongau pleser ac er mwyn cludo nwyddau. Porthladd Mostyn yw un o'r prif leoliadau yn Ewrop ar gyfer cydosod / gosod tyrbinau gwynt. Mae Porthladd Caergybi'n cynnig cysylltiadau fferi i Weriniaeth Iwerddon, gan gwmni Stena Line.</p> <p>Teithio Llesol: Disgrifiwyd y llwybrau teithio llesol yn ardal CCBC¹ fel rhai gwael ac nad oes digon o fuddsoddi ynddynt. Ers 2013 o dan y Ddeddf Teithio Llesol (Cymru), rhaid darparu map rhwydwaith integredig (INM) o lwybrau teithio llesol.</p>	<p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>yn yr hinsawdd drwy ehangu'r dewis o drafnidiaeth gynaliadwy er mwyn rhoi mynediad at swyddi a gwasanaethau allweddol i gymunedau Conwy, drwy hybu rhwydwaith o lwybrau byrrach, mwy llesol ac effeithlon ar gyfer cerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus a thrwy ddylanwadu ar leoliad, maint, dwysedd, cymysgedd defnyddiau a dyluniad datblygiadau newydd.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: Pob Amcan</p>
---	---	--

¹ Cynllun Trafndiaeth Lleol Ar y Cyd Gogledd Cymru (2015): <http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/q/k/n/Final-Joint-LTP-for-North-Wales-30-01-15---Welsh.pdf>

<p>Oherwydd rhai newidiadau i bolisi cenedlaethol a rhanbarthol, mae angen diwygio'r Amcan trafndiaeth yn y CDLI presennol.</p>		
Yr Economi		
<p>Datblygu Economaidd: Mae angen deall beth fydd goblygiadau'r 120,000 o swyddi sydd mewn golwg gan Fargen Twf y Gogledd a cheisio darparu ar gyfer yr anghenion defnydd tir yng Nghonwy. Daw Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy (ELR 2018) a'r Adroddiad Sbardunau Economaidd Rhanbarthol i'r casgliad y byddai angen i Gonwy ddarparu ar gyfer tua 1800 o swyddi ychwanegol dros gyfnod y CDLI Newydd. Yn ôl yr ELR, dylid rhannu'r dyraniadau tir ar gyfer cyflogaeth yn 50% B1 ar gyfer Busnesau a 50% B2/B8 ar gyfer Diwydiant a Warysau. Mae Asesiad o Farchnad Eiddo Conwy'n awgrymu y dylid lleoli tir newydd ar gyfer cyflogaeth ar hyd prif lwybr traws-Ewropeaidd yr A55.</p> <p>Mae Strategaeth Economaidd Conwy hefyd yn hyrwyddo defnydd canolfannau trefi fel ardaloedd twf cyflogaeth allweddol.</p> <p>Yn 2017, o blith y 76.6% o'r boblogaeth weithio economaidd weithgar yng Nghonwy, roedd 73.3% mewn gwaith, sy'n uwch na gweddill Cymru (72.4%) ond yn is na gweddill Prydain (74.9%). Mae 23.4% o boblogaeth weithio Conwy'n economaidd anweithgar (Cymru 24.0%) (Prydain 21.6%).</p> <p>Yn 2017 roedd y gyfradd ddiweithdra swyddogol yn ardal CCBC yn 4.2% oedd yn is na'r gyfradd ddiweithdra ar draws Cymru (4.8%) a Phrydain (4.4%). Yn gysylltiedig â hyn, yn 2016 roedd gan ardal CCBC ddwysedd swyddi o 0.78 (y gymhareb swyddi i'r boblogaeth oed gweithio breswyl) o'i gymharu â 0.76 ar draws Cymru a 0.84 ar draws Prydain.</p> <p>Mae angen cefnogi rhwydweithiau a chlystyrau busnes i ddatblygu, yn enwedig busnesau arloesol a thechnolegol.</p> <p>O ganlyniad i newidiadau polisi cenedlaethol a rhanbarthol, a thystiolaeth newydd, mae angen diwygio'r Amcan yn y CDLI presennol.</p>	<p>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a Drafft (Argraffiad 10)</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcan Strategol 7 (SO7): Cefnogi ffyniant economaidd hirdymor, arallgyfeirio ac adfywio drwy fanteisio ar sefyllfa strategol Conwy yn y fargen dwf ranbarthol ehangach a thrwy hyrwyddo strategaeth holistig sy'n cyd-leoli twf cyflogaeth a thwf tai, fydd yn hwyluso twf swyddi newydd o'r math iawn mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn cefnogi clystyrau a rhwydweithiau o fusnesau, yn cynyddu sgiliau mewn swyddi gwerth uchel ac yn darparu'r seilwaith newydd angenrheidiol. Bydd hyn yn hwyluso lleoli busnesau newydd yng Nghonwy a thwf y busnesau presennol.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: SO1, 2, 3, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13 ac 16</p>
<p>Twristiaeth: Mae twristiaeth yn ymwneud ag ystod eang o weithgareddau, cyfleusterau a mathau o ddatblygiad ac yn hanfodol i ffyniant yr economi a chreu gwaith mewn sawl rhan o Gonwy. Gall twristiaeth fod yn gatalydd ar gyfer adfywio, gwella'r amgylchedd adeiledig a gwarchod yr amgylchedd. Gan hynny, bydd angen i'r CDLI Newydd annog twristiaeth lle mae'n cyfrannu at ddatblygu economaidd, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio trefol a chynhwysiant cymdeithasol, ond cydnabod anghenion ymwelwyr a chymunedau lleol. Bydd angen sicrhau bod twristiaeth gynaliadwy'n cael ei</p>	<p>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a Drafft (Argraffiad 10)</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcan Strategol 8 (SO8): Annog a chefnogi twristiaeth gynaliadwy lle mae'n cyfrannu at ffyniant a datblygiad yr economi ac at gadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio a chynhwysiant cymdeithasol ond yn cydnabod anghenion ymwelwyr, busnesau a chymunedau lleol a bod angen gwarchod yr amgylchedd hanesyddol a naturiol.</p>

<p>hyrwyddo a cheisio denu twristiaeth drwy'r flwyddyn yn hytrach na dim ond yn dymhorol.</p> <p>Dylai'r CDLI Newydd ddarparu fframwaith ar gyfer cynnal a datblygu cyfleusterau twristiaeth o safon, wedi eu dylunio a'u lleoli'n dda. Dylai ystyried maint a dosbarthiad yr atyniadau twristiaeth presennol ac arfaethedig a galluogi datblygiadau ategol fel llety a mynediad mewn ffyrdd sy'n cyfyngu effeithiau negyddol ar yr amgylchedd.</p> <p>Mae twristiaeth yn chwarae rhan bwysig iawn yn economi Conwy a dylai'r CDLI Newydd ei gefnogi mewn ffordd gynaliadwy. Yn hanesyddol, mae twristiaeth yng Nghonwy wedi cael ei gefnogi gan asedau naturiol a hanesyddol ardderchog a chan ei lleoliad strategol wrth ymyl yr arfordir a Pharc Cenedlaethol Eryri. Yn fwy diweddar mae twf wedi bod mewn busnesau twristiaeth antur ac awyr agored cynaliadwy drwy'r flwyddyn. Mae hyn wedi gweld galw am lety gwyliau. Mae Strategaeth Twf Twristiaeth Conwy wrthi'n cael ei chynhyrchu a bydd yn ceisio asesu a deall y galw am y busnesau hyn, a'r galw am lety cysylltiedig, dros gyfnod y CDLI Newydd. Bydd angen i'r CDLI Newydd ddarparu ar gyfer y galw hwn drwy ddyrannu tir a thrwy bolisiau priodol. Mae Cynllun Llety Twristiaeth Conwy hefyd wrthi'n cael ei gynhyrchu i ddeall ymhellach y galw a'r cyflenwad ar gyfer y CDLI Newydd.</p> <p>Mewn ardaloedd gwledig, mae datblygiadau twristiaeth yn elfen hanfodol mewn darparu economi iach ac amrywiol a bydd angen ystyried hyn yn ofalus wrth adolygu'r CDLI Newydd. Bydd angen i ddatblygiadau twristiaeth mewn ardaloedd gwledig gyd-weddu, o ran natur a maint, â'r amgylchedd lleol.</p>		<p>Amcanion Cysylltiedig: SO1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 12, 13, 13, 15 ac 16</p>
<p>Yr Economi Wledig: Mae economi wledig gref yn hanfodol i gynnal cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog. Mae sefydlu mentrau newydd ac ehangu busnesau presennol yn greiddiol i dwf a sefydlogrwydd ardaloedd gwledig, wedi eu cefnogi gan y seilwaith cymunedol a thai angenrheidiol.</p> <p>Mae aneddiadau gwledig Conwy'n cyfrif am tua 15% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol. Mae'r rhan fwyaf o'r aneddiadau gryn bellter o'r canolfannau trefol mwy ac felly bydd angen i'r CDLI Newydd ystyried datblygu economaidd a'r seilwaith angenrheidiol ar eu cyfer.</p> <p>Bydd angen i'r CDLI Newydd fabwysiadu dull adeiladol tuag at gynigion datblygu amaethyddol, yn enwedig rhai sy'n cael eu dyfeisio i ateb anghenion arferion ffermio newydd neu sydd eu hangen i gydymffurfio â deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd, hylendid neu les. Yn ogystal, dylai'r CDLI Newydd fabwysiadu dull cadarnhaol gyda cheisiadau i drosi adeiladau gwledig ar gyfer busnes.</p>	<p>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a Drafft (Argraffiad 10)</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcan Strategol 9 (SO9): Hyrwyddo a chefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog drwy sefydlu mentrau newydd, ehangu busnesau presennol a mabwysiadu dull adeiladol tuag at amaeth ac arferion ffermio newydd.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: Pob Amcan</p>

<p>Yn aml iawn gellir lleoli gweithgareddau economaidd bach yn gynaliadwy ar ffermydd a safleoedd busnes gwledig eraill gan ddarparu incwm ychwanegol. Bydd angen i'r CDLI Newydd fabwysiadu dull cadarnhaol tuag at brosiectau arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig. Gall arallgyfeirio gryfhau'r economi wledig a dod â chyflogaeth ychwanegol a ffyniant i gymunedau.</p> <p>O ganlyniad i newidiadau mewn canllawiau cenedlaethol a thystiolaeth newydd, ystyrir nad yw'r Amcan yn y CDLI presennol yn addas.</p>		
<p>Ynni a'r Newid yn yr Hinsawdd: Mae ymchwil i'r newid yn yr hinsawdd yn darogan cynnydd o ran pa mor aml a difrifol fydd ein tywydd glaw. Mae llifogydd o afonydd, carthffosydd a dŵr wyneb felly'n debygol o waethygu ar draws ardal CCBC yn y dyfodol. Disgwylir i ardal CCBC hefyd wynebu mwy o lifogydd llanw wrth i lefel y môr godi.</p> <p>Roedd adroddiad Rhagolygon Llifogydd <i>Foresight</i> 2004 yn awgrymu y bydd y difrod economaidd blynyddol yng Nghymru'n codi o £70m yn 2004 i £1,235m erbyn canol y 2080au o dan y senario fwyaf tebygol. Ond yn ôl Adroddiad Stern, drwy weithredu'n ddioed gallwn leihau'r difrod economaidd mwy hirdymor.</p> <p>Allryiadau Nwyon Tŷ Gwydr: Dengys ystadegau 2015 gan InfoBase Cymru² fod cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) yn ardal CCBC (4.9) yn dangos bod lefel y CO2 fesul preswlydd (tunelli) yn is na'r cyfartalog drwy Gymru (8.0) yn 2016. Er yn gadarnhaol, mae angen parhau i ostwng lefel yr allyriadau GHG.</p> <p>Yn 2015 roedd CCBC yn darparu 2.7%³ o'r ynni carbon isel a gynhyrchir yng Nghymru. Fodd bynnag, mae lle i wella hyn drwy gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy yn y dyfodol</p> <p>Dylai'r CDLI Newydd gyflwyno polisiau, cynigion a chanllawiau i gefnogi'r broses o bontio i economi carbon isel. Dylai hyn gynnwys darparu fframwaith polisi cefnogol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel mewn lleoliadau priodol. Dylai'r CDLI Newydd hefyd gynnwys polisiau i annog dylunio carbon isel a chyflwyno strategaeth ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy sy'n manteisio ar y seilwaith presennol o reilffyrdd a phorthladdoedd yn ardal CCBC er mwyn cyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector trafndiaeth.</p>	<p>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a Drafft (Argraffiad 10)</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcan Strategol 10 (SO10): Sicrhau cymysgedd priodol o ynni, gan gynnwys hyrwyddo Morlyn Ynni Llanw, sy'n cynnig y manteision gorau i economi a chymunedau Conwy ond yn lleihau unrhyw effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol negyddol.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: SO1, 2, 3, 6, 7, 8, 9, 11, 13, 16 ac 16</p>

² InfoBase Cymru <http://www.infobasecymru.net/IAS/themes/environmentandsustainability/environment/tabular?viewId=518&geold=1&=subsetId>

³ Stats Cymru – Cynhyrchu Ynni Carbon Isel yn ôl Awdurdod Lleol: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Energy/lowcarbonenergygeneration-by-localauthority>

<p>hefyd yn nodi cynigion strategol ar weydd eu hystyried. Yn ogystal, byddo cynnydd mewn cynlluniau pro Morlyn Ynni Llanw ar hyd yn erbyn llifogydd, adfywio a yn ogystal â chynhyrchu ynni</p> <p>gyddol o ynni sy'n cynnig y Conwy ond yn lleihau unrhyw gyddol. Dylai gydnabod yn llawn y ddy a charbon isel fel rhan o'r ddy yn yr hinsawdd ac i wella</p> <p>, rhanbarthol a lleol, a thystiolaeth presennol.</p>		
<p>hyrwyddo newid tuag at economi a y mae datblygiad yn eu ams o ddylunio adeiladau, dylunio i'r ddi wedi neu y gellir eu hail-lylu a'u hailgylchu neu y gellir eu y gellir cyflenwi'r deunyddiau sydd ynau cynradd. Bydd hyn yn helpu i'r fel nad oes baich ar el ei dreulio yn y cam dylunio'n adnoddau a sicrhau manteision</p> <p>digwydd yng Nghanolfan Ailgylchu a o 62,560 tonnell o wastraff trefol dio, ailgylchu neu ei gompostio a straff ei aildddefnyddio / ailgylchu / 8 tonnell, a anfonwyd i gael ei</p>	<p>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a Drafft (Argraffiad 10)</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcan Strategol 11 (SO11): Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gan effeithio cyn lleied ar yr amgylchedd â phosib a sicrhau y gwneir defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: SO1, 2, 6, 7, 9, 10, 15 ac 16</p>

er Gwastraff o Gartrefi'n 45.2% o'i
5.

gylchu cyfartalog gweddill Cymru
thuedd ar i fyny. Dylai'r perfformiad
nnal a, lle bo'n bosib, parhau i

ynoedd bychain a'r ucheldir
nru. Yn fwyaf nodedig, mae
win a Gogledd-Ddwyrain Cymru'n
er bod cloddio am lo yn yr ardal
'n dal i fodoli a allai fod yn effeithio

, rhanbarthol a lleol, a thystiolaeth
presennol.

Yr Amgylchedd a Diwylliant

u gwerthfawrogi am eu cyfraniad
durdodau lleol warchod a gwella
a rhoi sylw dyledus i'r budd
diwylliannol y maent yn ei
o werth. Mae ystyried tirlun ar
nolisïau ar gyfer cynlluniau
dd, yn allweddol i gynnal a gwella
d a'r manteision lles mwyaf i bobl
al â helpu i ddarparu dull effeithiol
ymor hir. Bydd angen
gos, Cyfoeth Naturiol Cymru
a manteisio ar ystod eang o
lewydd.

arc Cenedlaethol yn 1951, Parc
f i gael ei ddynodi yng Nghymru.
arc Cenedlaethol Eryri'n cynnwys
, gan gynnwys aneddiadau sydd
u lefel briodol o warchodaeth.

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a
Drafft (Argraffiad 10)

Nodiadau Cyngor Technegol

Papurau Pwnc

Papurau Cefndir

Amcan Strategol 12 (SO12): Gwarchod a gwella
asedau naturiol, diwylliannol a threftadaeth ansawdd
uchel Conwy.

Amcanion Cysylltiedig: Pob Amcan

<p>Mae Conwy wedi dynodi chwe Ardal Tirwedd Arbennig ar lefel leol. Dylai'r CDLI Newydd ddarparu lefel briodol o gyfleoedd i warchod a gwella tirluniau (neu dirweddau) sydd wedi eu dynodi ar lefel leol.</p>		
<p>Ardaloedd Arfordirol: Mae'r cyswllt rhwng y tir a'r môr yn creu nodweddion unigryw sy'n gysylltiedig ag ardaloedd arfordirol. Yn ogystal â chyfleoedd, mae'r nodweddion hyn yn cyflwyno eu cyfres eu hunain o heriau sy'n gofyn am ystyriaethau ac ymatebion penodol. Bydd adnabod a deall y nodweddion unigryw hyn, eu perthynas a'u cyswllt â'i gilydd, yn helpu i sicrhau dulliau cynllunio mewn ardaloedd arfordirol sy'n economaidd ac amgylcheddol gynaliadwy, sy'n gymdeithasol deg a chydlynus ac sy'n cydnabod y bygythiad a gyflwynir gan y newid yn yr hinsawdd. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru'n cael ei ddatblygu i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i ddatblygu moroedd Cymru'n gynaliadwy. Er nad yw wedi'i fabwysiadu, bydd angen i'r CDLI Newydd ystyried y materion polisi sy'n berthnasol i Gonwy.</p> <p>Gallai pwysau oddi wrth ddatblygu ar y lan gynnwys datblygiadau mawr ar yr arfordir, gwaith porthladd a harbwr, cyfleusterau hamdden, cynhyrchu ynni adnewyddadwy neu amddiffynfeydd arfordirol. Gallai'r pwysau oddi wrth ddatblygu ar y môr gynnwys gwaredu gwastraff, pysgota môr, mwy o hwyllo hamdden, carthu sianeli mordwyo, chwaraeon dŵr ac ymdrochi, cloddio am agregau morol neu gynhyrchu ynni llanw a thonau. Gall yr effeithiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn fod yn eang ac ymwneud efallai â defnydd amhriodol o dir, pwysau oddi wrth wasanaethau a chyfleusterau ynghyd ag effeithiau ar fusnesau a chyflogaeth yn ogystal ag ar gymeriad naturiol a hanesyddol yr arfordir.</p> <p>Mae'r newid yn yr hinsawdd hefyd yn ychwanegu i'r heriau a wynebwr gan ardaloedd arfordirol gan arwain at golli cynefinoedd gwarchoddedig neu golli nodweddion sy'n amddiffyn y tir rhag y môr, fel twyni tywod, ynghyd â'r effeithiau ar draethau hamdden, pobl ac eiddo yn ysgil hynny. Mae 'Astudiaeth o Botensial Datblygu Dwyrain y Fwrdeistref Sirol' hefyd ar y gweill i benderfynu pa gyfleoedd a allai gynorthwyo adfywio.</p> <p>Mae arfordir Conwy'n gartref i 85% o'r boblogaeth a lleolir yr ardaloedd trefol mwy poblog i gyd ar hyd coridor arfordirol yr A55. Mae gan yr ardal lefel uchel o bwysau oddi wrth ddatblygu ac mae angen adfywio ardaloedd fel Pensarn, Towyn a Bae Cinmel lle mae effeithiau andwyol o beryglon llifogydd yn her sylweddol. Mae twristiaeth yn sector allweddol i nifer fawr o'r cymunedau hyn, er bod hyn yn dymhorol yn y rhan fwyaf ohonynt. Mae Strategaeth Twf Economaidd Conwy hefyd yn hyrwyddo Morlyn Ynni Llanw newydd. Bydd angen i'r CDLI Newydd sefydlu'n glir beth y mae'r arfordir yn ei olygu i Gonwy, a datblygu neu ddefnyddio polisiau penodol sy'n adlewyrchu nodweddion yr arfordir. Drwy wneud hynny, dylai'r CDLI Newydd gydnabod y cyswllt a'r</p>	<p>Polisi Cynllunio Cymru</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcan Strategol 13 (SO13): Cefnogi cyfleoedd twf, adfywio a datblygu mewn Ardaloedd Arfordirol ond, ar yr un pryd, bod yn ymwybodol ac ymatebol i'r heriau sy'n dod oddi wrth bwysau naturiol.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: Pob Amcan</p>

<p>berthynas rhwng nodweddion ffisegol, defnydd tir a biolegol yr ardaloedd arfordirol ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r CDLI presennol eisoes yn cynnwys polisi ar Ardaloedd Arfordirol, felly Amcan arfaethedig newydd yw hwn.</p>		
<p>Yr Amgylchedd Hanesyddol: Mae asedau hanesyddol yn chwarae rôl bwysig mewn twristiaeth, buddsoddi a chymunedau a dylid eu gwarchod a'u gwella drwy'r CDLI Newydd. Mae amgylchedd hanesyddol yn cynnwys yr holl elfennau ffisegol a oroesodd o weithgarwch dyn ac yn dangos sut y mae cenedlaethau'r gorffennol wedi dylanwadu ar olwg a ffurf y byd o'n cwmpas. Mae'n ganolog i ddiwylliant a chymeriad Conwy ac yn cyfrannu at hunaniaeth a naws arbennig yr ardal. Mae'n gwella ansawdd bywyd, yn ychwanegu at gymeriad unigryw rhanbarthol a lleol yr ardal ac yn ased economaidd a chymdeithasol pwysig.</p> <p>Mae Castell Conwy wedi'i ddynodi'n Safle Treftadaeth Byd. Ym marn UNESCO, Castell Conwy yw un o'r enghreifftiau mwyaf godidog yn Ewrop o bensaerniaeth filwrol diwedd yr 13eg ganrif a dechrau'r 14eg ganrif</p> <p>Mae ardal CCBC yn cynnwys 162 o Henebion Cofrestredig, 1735 o Adeiladau Rhestredig ac o'r rhain mae 29 yn rhai Gradd I, 1610 yn rhai Gradd 2 a 96 yn rhai Gradd 2*, a 24 o Ardaloedd Cadwraeth. Rhaid i'r CDLI Newydd gefnogi ymdrechion i warchod a gwella ein holl asedau treftadaeth dynodedig cenedlaethol, gan gynnwys eu gosodiad. Mae'r asedau treftadaeth hyn yn mwynhau gwarchodaeth statudol sy'n rhaid ei ystyried yng nghyswllt polisïau, cynigion a chanllawiau'r CDLI Newydd.</p> <p>Mae ardal CCBC yn gartref i ystod o asedau treftadaeth dynodedig a rhaid eu hamddiffyn i gyd yn briodol rhag effeithiau ar eu cyfanrwydd a'u gosodiad. Dylid gwarchod, amddiffyn a hyrwyddo eu cyfraniad i ardal CCBC, ac yn enwedig i dref Conwy ei hun (tref treftadaeth byd), er mwyn annog twristiaeth yn yr ardal.</p> <p>Daearegol: Mae ardal CCBC yn cynnwys 12 safle SoDdGA a ddynodwyd am resymau o bwysigrwydd daearegol. Rhaid i'r CDLI Newydd gefnogi'r gwaith o reoli pob safle dynodedig cenedlaethol i gynnal neu wella eu cyflwr presennol.</p>	<p>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a Drafft (Argraffiad 10)</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcan Strategol 12 (SO12): Gwarchod a gwella asedau naturiol, diwyllianol a threftadaeth ansawdd uchel Conwy.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: Pob Amcan</p>
<p>Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth</p> <p>Seilwaith Gwyrdd: Seilwaith gwyrdd yw'r rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, manau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n rhedeg drwy ac yn cysylltu lleoedd. Gall yr elfennau cyfansawdd o seilwaith gwyrdd weithredu ar wahanol lefelau. Ar lefel tirlun, gall seilwaith gwyrdd gynnwys ecosystemau cyfan fel gwlypdroedd, dyfrffyrdd a chadwyni mynyddoedd. Ar lefel leol, gallai gynnwys parciau, caeau, hawliau tramwy cyhoeddus, gerddi, rhandiroedd a</p>	<p>Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016</p> <p>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) a Drafft (Argraffiad 10)</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p>	<p>Amcan Strategol 14 (SO14): Gwarchod a gwella bioamrywiaeth a chreu rhwydweithiau ecolegol gwydn.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: SO1, 2, 3, 4, 5, 7, 8, 9, 12, 13, 15 ac 16</p>

<p>mynwentydd. Ar lefelau llai, gall nodweddion trefol unigol fel coed stryd, gwyrchoedd, ymylon y ffyrdd a thoeau gwyrdd i gyd gyfrannu at rwydweithiau o seilwaith gwyrdd.</p> <p>Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sbardun cryf i ddarparu seilwaith gwyrdd aml-weithredol. Gall darparu seilwaith gwyrdd wneud cyfraniad sylweddol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yn enwedig i gynnal a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau o ran yr amrywiaeth rhwng ac oddi mewn i ecosystemau a hefyd i ehangder, cyflwr a'r cysylltedd rhwng ecosystemau a sut y medrant ymdopi gyda, ac adfer o ddigwyddiadau annisgwyl. Mae hyn yn golygu bod datblygu seilwaith gwyrdd yn ffordd bwysig i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd adran 6 drwy'r CDLI Newydd.</p> <p>Mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd Conwy ar y gweill i oleuo'r gwaith o gynhyrchu'r CDLI Newydd ac i ddatblygu dull cadarn o lunio cynigion i wella bioamrywiaeth, cynyddu gwydnwch ecolegol a gwella canlyniadau lles. Bydd yr Asesiad yn adnabod cyfleoedd strategol allweddol lle gallai adfer, cynnal, creu neu gysylltu nodweddion gwyrdd a'u swyddogaethau ddarparu'r manteision gorau yng Nghonwy.</p> <p>Bioamrywiaeth: Bydd angen i'r CDLI Newydd sicrhau ei fod yn dilyn dull graddol fesul cam o warchod a gwella bioamrywiaeth a chreu rwydweithiau ecolegol gwydn drwy sicrhau bod unrhyw effeithiau andwyol i'r amgylchedd yn cael eu lleihau a'u lliniaru.</p> <p>Mae Conwy yn cynnwys tair Ardal Tirwedd Arbennig (SPA), wyth Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) ac un Safle Ramsar. Mae angen cefnogi'r gwaith o reoli'r holl safleoedd gyda dynodiadau rhyngwladol (gan gynnwys Safleoedd Ewropeaidd newydd posib neu arfaethedig) yn unol â'r amcanion cadwraeth a ddiffiniwyd ar eu cyfer.</p> <p>Mae gan Gonwy 43 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a chwe Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR). Rhaid i'r CDLI Newydd gefnogi'r gwaith o reoli safleoedd gyda dynodiadau cenedlaethol yn unol â'r amcanion cadwraeth a ddiffiniwyd ar eu cyfer.</p> <p>Mae Conwy wedi dynodi dros 40 o Ardaloedd Cadwraeth ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno neu'n ei reoli, a 11 Gwarchodfa Natur Leol. Dylai'r CDLI Newydd ddarparu lefel briodol o gyfleoedd i warchod a gwella safleoedd bioamrywiaeth a ddynodwyd ar lefel leol.</p> <p>Gallai unrhyw gynig i ddatblygu yn ardal CCBC gael effaith andwyol ar safleoedd dynodedig a bioamrywiaeth drwy ystod o wahanol effeithiau union</p>	<p>Papurau Cefndir</p>	
--	------------------------	--

<p>ac anuniongyrchol, gan gynnwys rhai fel colli cynefinoedd clwydo, fforio a chynefinoedd eraill, achosi aflonyddwch sŵn neu gorfforol, drwy dynnu dŵr o afonydd, gollwng elifion carthion, halogi a llygru'r aer. Gan hynny, rhaid i bob cynnig a pholisi yn y CDLI Newydd ystyried ffactorau ecolegol sensitif perthnasol. Mae hyn yn cynnwys y bydd angen cefnogi'r gwaith o reoli'r holl safleoedd dynodedig o ran eu statws ac yn unol â chwrdd â'u hamcanion cadwraeth. Rhaid i'r CDLI Newydd hefyd ddarparu lefel briodol o warchodaeth i rywogaethau gwarchoddedig a buddiannau ecolegol heb eu dynodi.</p>		
<p>Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau</p> <p>Aer a Seinwedd: Mae aer glân a seinwedd priodol yn cyfrannu at brofiad cadarnhaol o le, yn ogystal â bod yn angenrheidiol ar gyfer iechyd, amwynder a lles cyhoeddus. Mae'r pethau hyn yn arwydd o ansawdd yr amgylchedd lleol ac yn nodweddion lle annatod y dylid eu gwarchod drwy fesurau ataliol neu ragweithiol y system gynllunio. Dylai'r CDLI Newydd sicrhau ei fod yn cynnwys polisiau i atal effaith a gwneud y mwyaf o'i gyfle i gyfrannu at greu Cymru iachach drwy geisio lleihau faint y mae pobl yn dod i gysylltiad ar gyfartaledd â llygredd aer a sŵn, ochr yn ochr â mesurau i fynd i'r afael ag ardaloedd o lygredd uchel. Drwy wneud hyn bydd yr egwyddor 'cyfrwng newid' yn ystyriaeth berthnasol.</p> <p>Yn ôl y data diweddaraf, nid yw safonau ansawdd yr aer yn ardal CCBC mewn perygl o fynd dros y safonau a nodir yn Amcanion Ansawdd Aer yr Undeb Ewropeaidd ac nid oes angen unrhyw asesiadau manwl na chynlluniau rheoli ar lefel Cyngor ar gyfer unrhyw lygredd.⁶ Bydd angen parhau i fonitro ansawdd yr aer yn CCBC, yn enwedig ffordd ddeuol yr A55 oherwydd hon yw'r brif gefnffordd rhwng Gogledd-Orllewin Lloegr a phorthladd Caerdybi, gan gynnwys twnnel Conwy ar hyd yr A55 a'r A470 wrth iddi fynd i gyfeiriad Eryri. Dylid parhau i fonitro traffig ychwanegol ar y ffordd hyn sy'n deillio o ddatblygiadau newydd.</p> <p>Dylai'r CDLI Newydd hefyd adnabod ardaloedd o bwysigrwydd diwylliannol neu hanesyddol er enghraifft, y dylid rhoi ystyriaeth arbennig iddynt o ran seinwedd lle gallai fod angen gwneud hyn i ddiogelu bywiogrwydd lle neu i ddarparu amgylchedd heddychlon ac adferol mewn ardaloedd adeiledig prysur. Yn ogystal â hyn, bydd yn anhepgor adnabod synergedd rhwng mapio seilwaith gwyrdd a'r effaith gymedrol y gallai gwarchod neu ddarparu seilwaith gwyrdd ei chael ar gynnal ansawdd aer da a seinwedd priodol, gan gynnwys rôl manau gwyrdd tawel. Dylai'r CDLI Newydd hefyd gyflwyno polisiau, cynigion</p>	<p>Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016</p> <p>Polisi Cynllunio Cymru</p> <p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcan Strategol 15 (SO15): Lleihau faint y mae pobl a phethau'n dod i gysylltiad â llygredd aer a sŵn, cydbwyso darparu datblygu a goleuadau i gadw pobl ac eiddo'n ddiogel â gwarchod a gwella'r amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr, gan gynnwys dŵr wyneb a dŵr daear, o ran eu hansawdd a faint sydd ohonynt.</p> <p>Amcanion Cysylltiedig: Pob Amcan</p>

⁶ Monitro Ansawdd yr Aer <http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Environmental-problems/Air-Quality-Monitoring.aspx>

<p>a chanllawiau i fynd i'r afael ag ardaloedd lle mae ansawdd yr aer yn wael, a hefyd ag effeithiau tebygol datblygiadau newydd ar ansawdd yr aer, gan gynnwys o draffig. Dylai hefyd geisio lleihau llygredd aer lleol drwy gyflwyno polisiau a chynigion i hyrwyddo dulliau cynaliadwy ac egnïol o deithio.</p> <p>Golau: Mae angen cydbwysu darparu goleuadau i gadw pobl ac eiddo'n ddiogel er mwyn helpu i atal troseddu, a gallu cynnal gweithgareddau fel chwaraeon a hamdden, â'r angen i warchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol gan gynnwys bywyd gwyllt; cadw ein hawyr yn dywyll lle bo hynny'n briodol; atal golau tanbaid a pharchu amwynder defnyddiau tir cyfagos ynghyd â lleihau'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â goleuadau. Bydd hefyd angen i'r CDLI Newydd ystyried y Gwarchodfeydd Awyr Dywyll ym Mharc Cenedlaethol Eryri.</p> <p>Cyrff dŵr yng Nghonwy: Mae ardal CCBC yn gorwedd o fewn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Mae'r ardal yn cynnwys 25 o gyrff dŵr daear, gyda statws 60% ohonynt wedi ei ddisgrifio i fod yn dda'n gyffredinol yn 2015 (yn feintiol a chemegol). Ar draws Gorllewin Cymru, mae gwaith mwyngloddio hanesyddol yn parhau i fygwth ansawdd dŵr – sy'n agored i gael ei halogi gan lygredd o nitradau⁷. Mae cyrff dŵr ar draws ardal CCBC yn amrywio o ran ansawdd, gwerth ecolegol a chyflwr presennol. Mae rheoli ansawdd dŵr yn hanfodol i wella iechyd hirdymor pobl a'r amgylchedd. Mae 63 o gyrff dŵr a naw o lynnoedd ar draws dalgylch Conwy a Chlwyd. O'r rhain mae 16 o afonydd ac wyth o'r llynnoedd yn artiffisial neu wedi cael eu haddasu'n drwm⁸.</p> <p>Bydd angen i'r CDLI Newydd gyflwyno polisiau, cynigion a chanllawiau i warchod a gwella'r amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr, gan gynnwys dŵr wyneb a dŵr daear, o ran ei ansawdd a faint sydd ohono. Dylai hyn gynnwys mesurau i ddileu ffynonellau sy'n halogi dŵr ac yn gwneud drwg i'r amgylchedd dŵr, ac i reoleiddio gollwng llygredd o ddatblygiadau newydd i mewn i gyrsgiau dŵr.</p> <p>Nid yw'r CDLI presennol yn cynnwys Amcan sy'n ymdrin â'r materion gofynnol hyn, felly Amcan a gynigir o'r newydd ydyw.</p>		
<p>Datgloi Potensial Datblygu drwy Ddadrsgio: Mae amrywiol gyfyngiadau'n bodoli yng Nghonwy fydd yn effeithiau ar sut y bydd rhai cymunedau'n gallu hybu lles a chwrrd ag anghenion datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys risg neu</p>	<p>Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Polisi Cynllunio Cymru</p>	<p>Amcan Strategol 16 (SO16): Datgloi potensial twf, adfywio a datblygu yng Nghonwy drwy ymarfer dull o ddadrsgio.</p>

⁷ Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynllun Rheoli Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru, 2015): <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/river-basin-management-plans-published/?lang=cy>

⁸ Cynllun Rheoli Basn Afon: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/river-basin-management-plans-published/?lang=cy>

<p>beryl llifogydd, topograffi, y tirlun naturiol a hanesyddol a phrifyrdd. Mae deall y rhwystrau i ddatgloi potensial lleoedd, gan gynnwys trawsnewid neu adfywio ardal neu ddatblygiad un safle, yn rhan allweddol o greu lleoedd cynaliadwy a rhaid eu hystyried wrth ddatblygu'r CDLI Newydd.</p> <p>Mae'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o waethygu'r perygl llifogydd wrth i lefel y môr godi ac wrth i ni weld mwy o law trwm. Mae llifogydd fel perygl yn golygu bod angen ystyried y canlyniadau posib yn ogystal â pha mor debygol yw llifogydd o ddigwydd. Dylai'r CDLI Newydd fabwysiadu dull rhagofalus o gymell pobl yn gadarnhaol i osgoi datblygu mewn ardaloedd sy'n profi llifogydd o'r môr neu o afonydd.</p> <p>Mae rhannau helaeth o'r Fwrdeistref Sirol yn wynebu perygl llifogydd, yn enwedig Llandudno a'r aneddiadau i'r dwyrain o'r Fwrdeistref Sirol. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adolygu'r perygl llifogydd a'r amddiffynfeydd yn y Dwyrain gan ddisgwyl gallu cynorthwyo adfywio a datblygu i gwrdd ag anghenion cymunedau. Bydd y gwaith hwn yn goleuo'r CDLI Newydd ymhellach wrth iddo ddatblygu.</p> <p>Fel rhan o ddatblygu'r CDLI Newydd, mae angen hwyluso dull o ddadrisgio lle mae peryglon naturiol a pheryglon a grewyd gan ddyn ar yr wyneb ac o dan yr wyneb, a pheryglon amgylcheddol, yn cael eu hystyried fel rhan annatod o geisio deall nodweddion lleoedd yn well Mae hyn yn golygu mai rôl awdurdodau cynllunio yw hwyluso ymwybyddiaeth o beryglon a risgiau amgylcheddol ac adnabod cyfleoedd creadigol ar gyfer greu lleoedd.</p>	<p>Nodiadau Cyngor Technegol</p> <p>Papurau Pwnc</p> <p>Papurau Cefndir</p>	<p>Amcanion Cysylltiedig: SO1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 13 ac 14</p>
--	---	--

5.3 Ar ôl ystyried y materion a'r problemau allweddol, cynigir 16 o Amcanion a restrir yn Nhabl 3 isod.

Tabl 3: Amcanion Arfaethedig

Creu lleoedd
<p>Amcan Strategol 1 (SO1) Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy: Cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol ac at wella lles yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses gynhwysol o greu ac adfywio lleoedd sy'n sicrhau twf yn y dyfodol a bod datblygu'n digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, sy'n ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd iachach, sy'n gwarchod yr iaith Gymraeg ac sydd wedi'i chefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd rhagorol.</p>
Cymdeithasol
<p>Amcan Strategol 2 (SO2) Tai: Hyrwyddo strategaeth holistig ar gyfer cyd-leoli twf tai a chyflogaeth drwy ddarparu cartrefi newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy a safleoedd ar gyfer sipsiwn a theithiwr, mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch a sicrhau bod y mathau a'r ystod iawn o dai o ran math, maint a deiliadaeth yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r seilwaith cymunedol angenrheidiol.</p>
<p>Amcan Strategol 3 (SO3) Canolfannau Manwerthu a Masnachol: Darparu canolfannau tref a masnachol deniadol a hyfyw yng Nghonwy drwy ail-ddiffinio eu rôl ac annog amrywiaeth o weithgareddau a defnyddiau.</p>
<p>Amcan Strategol 4 (SO4) Cyfleusterau Cymunedol: Cyfrannu at naws lle ac at iechyd, lles ac amwynder cymunedau lleol drwy sicrhau bod gan y boblogaeth bresennol, a'r boblogaeth yn y dyfodol, fynediad at gymysgedd cynaliadwy o gyfleusterau cymunedol.</p>
<p>Amcan Strategol 5 (SO5) Ardaloedd Hamdden: Annog lles meddwl a chorfforol drwy ddarparu a diogelu rhwydweithiau o ardaloedd hamdden a mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd uchel.</p>
<p>Amcan Strategol 6 (SO6) Trafnidiaeth: Darparu datblygu cynaliadwy a cheisio mynd i'r afael ag achosion y newid yn yr hinsawdd drwy ehangu'r dewis o drafnidiaeth gynaliadwy er mwyn rhoi mynediad at swyddi a gwasanaethau allweddol i gymunedau Conwy, drwy hybu rhwydwaith o lwybrau byrrach, mwy llesol ac effeithlon ar gyfer cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a thrwy ddylanwadu ar leoliad, maint, dwysedd, cymysgedd defnyddiau a dyluniad datblygiadau newydd.</p>
Yr Economi
<p>Amcan Strategol 7 (SO7) Datblygu Economaidd: Cefnogi ffyniant economaidd hirdymor, arallgyfeirio ac adfywio drwy fanteisio ar sefyllfa strategol Conwy yn y fargen dwf ranbarthol ehangach a thrwy hyrwyddo strategaeth holistig sy'n cyd-leoli twf cyflogaeth a thwf tai, fydd yn hwyluso twf swyddi newydd o'r math iawn mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn cefnogi clystyrau a rhwydweithiau o fusnesau, yn cynyddu sgiliau mewn swyddi gwerth uchel ac yn darparu'r seilwaith newydd angenrheidiol. Bydd hyn yn hwyluso lleoli busnesau newydd yng Nghonwy a thwf y busnesau presennol.</p>
<p>Amcan Strategol 8 (SO8) Twristiaeth: Annog a chefnogi twristiaeth gynaliadwy lle mae'n cyfrannu at ffyniant a datblygiad yr economi ac at gadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio a chynhwysiant cymdeithasol ond yn cydnabod anghenion ymwelwyr, busnesau a chymunedau lleol a bod angen gwarchod yr amgylchedd hanesyddol a naturiol.</p>
<p>Amcan Strategol 9 (SO9) Yr Economi Wledig: Hyrwyddo a chefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog drwy sefydlu mentrau newydd, ehangu busnesau presennol a mabwysiadu dull adeiladol tuag at amaeth ac arferion ffermio newydd.</p>
<p>Amcan Strategol 10 (SO10) Ynni a'r Newid yn yr Hinsawdd: Sicrhau cymysgedd priodol o ynni, gan gynnwys hyrwyddo Morlyn Ynni Llanw, sy'n cynnig y manteision gorau i economi a chymunedau Conwy ond yn lleihau unrhyw effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol negyddol.</p>
<p>Amcan Strategol 11 (SO11) Mwynau a Gwastraff: Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gan effeithio cyn lleied ar yr amgylchedd â phosib a sicrhau y gwneir defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu.</p>
Yr Amgylchedd a Diwylliant
<p>Amcan Strategol 12 (SO12) Tirluniau a'r Amgylchedd Hanesyddol: Gwarchod a gwella asedau naturiol, diwylliannol a threftadaeth ansawdd uchel Conwy.</p>

Amcan Strategol 13 (SO13) Ardaloedd Arfordirol: Cefnogi cyfleoedd twf, adfywio a datblygu mewn Ardaloedd Arfordirol ond, ar yr un pryd, bod yn ymwybodol ac ymatebol i'r heriau sy'n dod oddi wrth bwysau naturiol.

Amcan Strategol 14 (SO14) Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth: Gwarchod a gwella bioamrywiaeth a chreu rhwydweithiau ecolegol gwydn.

Amcan Strategol 15 (SO15) Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau: Lleihau faint y mae pobl a phethau'n dod i gysylltiad â llygredd aer a sŵn, cydbwyso darparu datblygu a goleuadau i gadw pobl ac eiddo'n ddiogel â gwarchod a gwella'r amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr, gan gynnwys dŵr wyneb a dŵr daear, o ran eu hansawdd a faint sydd ohonynt.

Amcan Strategol 16 (SO16) Datgloi Potensial Datblygu drwy Ddadrsgio: Datgloi potensial twf, adfywio a datblygu yng Nghonwy drwy ymarfer dull o ddadrsgio.

- 5.4 Mae hefyd angen i amcanion y CDLI fod yn gyson â'i gilydd. Felly mae'n syniad da profi pa mor gydnaws yw'r amcanion drwy ddefnyddio dull matrices. Bydd hyn yn helpu i dynnu sylw at yr amcanion pwysicaf ac unrhyw densiynau rhyngddynt na ellir eu datrys fel bod unrhyw benderfyniadau a wneir ar flaenoriaethau wedi eu seilio'n dda ac er mwyn gallu ystyried opsiynau eraill a mesurau lliniaru. Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud yn y Papurau Cefndir a'r Adroddiad SA.

Question 4: *Ydych chi'n cytuno â'r amcanion?*

Question 5: *A ddylid ystyried unrhyw amcanion eraill?*

6 Y Camau Nesaf

- 6.1 Bydd angen ymgynghori gyda Budd-ddeiliaid Allweddol ar y Papurau Materion ac Opsiynau, y Papurau Pwnc a'r Papurau Cefndir. Fel y nodwn uchod, y flaenoriaeth yn y cam hwn o baratoi'r CDLI Newydd yw dechrau trafod gyda budd-ddeiliaid allweddol i sicrhau y bydd y cynllun yn addas i'r pwrpas. Ar ôl ymgynghori, bydd Strategaeth a Ffafir y CDLI Newydd yn cael ei pharatoi, fydd yn cynnwys y Weledigaeth a Ffafir, Amcanion, Strategaeth Ofodol a safleoedd strategol.

Atodiad 1 - Papurau Tystiolaeth Cefndir

Papur Cefndir		Pwrpas
PC1	Adroddiad Opsiynau Lefel Twf (Tai a Chyflogaeth)	Mae'r papur briffio hwn yn edrych ar yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd cenedlaethol diweddaraf, gan nodi nifer o opsiynau twf. Mae'n eu cymharu ag amcanestyniadau'r gorffennol, edrych ar oblygiadau'r amcanestyniadau ar gyfer yr RLDP a darparu beirniadaeth o ddefnydd yr amcanestyniadau. Rhoi diweddariad er mwyn canfod Lefel Twf a Ffefir.
PC2	Adroddiad Opsiynau Dosbarthiad Gofodol	Mae'r papur hwn yn nodi dosbarthiad gofodol cyffredinol datblygiad dros gyfnod y Cynllun. Mae'r papur hwn yn nodi'r opsiynau gofodol a ystyriwyd. Rhoi diweddariad er mwyn canfod Lefel Twf a Ffefir.
PC3	Hierarchaeth Aneddiadau ac Aneddiadau a Rennir	Mae'r BP yn nodi'r opsiynau hierarchaeth aneddiadau presennol ar gyfer yr RLDP ar sail asesiad o gymeriad a chynaliadwyedd pob anheddiad. Mae'r Hierarchaeth Aneddiadau yn hanfodol wrth osod dosbarthiad gofodol twf. Rhoi diweddariad pan fydd y strategaeth anheddu a ffefir yn hysbys.
PC4	Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol	Mae'r adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd llawn yn ddogfen gyhoeddus a'i bwrpas yw dangos sut caiff yr ystyriaethau cynaliadwyedd eu hintegreiddio i baratoi'r RLDP. Bwriedir i'r adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd ganiatáu i rai sy'n darllen yr adroddiad gael syniad o pa mor effeithiol allai'r RLDP fod o ran darparu datblygu mwy cynaliadwy a lle gallai effaith fwy andwyol fodoli. Lle caiff effaith negyddol bosibl ei nodi, bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn gwneud argymhellion o ran sut gellir addasu'r RLDP, neu roi rheolaethau ar ddatblygiad, er mwyn osgoi neu liniaru yn erbyn y rhain. Mae hyn yn rhan o broses lle caiff camau olynol o'r RLDP sy'n dod i'r amlwg eu harfarnu a lle caiff canfyddiadau eu bwydo i gam nesaf paratoi'r cynllun.
PC5	Arfarniad Rheoliadau'r Cynfinoedd	Mae chwe Safle Ewropeaidd yn Ardal y Cynllun a phump arall y tu allan i'r ardal a gallai'r RLDP gael effaith arnynt o bosibl. Mae'r safleoedd hyn yn naill ai ardaloedd cadwraeth arbennig (ACA) (am bwysigrwydd eu cynfinoedd) neu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (am bwysigrwydd eu rhywogaethau adar). Yn ei hanfod, bydd angen arfarniad er mwyn asesu pob cam o'r RLDP ac a yw'n debygol o gael effaith sylweddol ar Safle Ewropeaidd ac os felly, bydd angen cynnal Asesiad Priodol. Ni ellir mabwysiadu'r RLDP oni bai y gellir canfod, drwy'r Asesiad Priodol, na fydd y cynllun yn cael effaith andwyol ar integriti'r safle(oedd).
PC6	Asesiadau Cyflawni Safleoedd	Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r broses a gynhelir ar gyfer asesu safleoedd a gyflwynwyd ar gyfer eu cynnwys yn yr RLDP, a elwir 'safleoedd ymgeisiol'. Mae safleoedd wedi'u cyflwyno ar gyfer nifer o wahanol ddefnydd tir ac maent wedi bod yn destun proses asesu safleoedd manwl, ei phwrpas yw nodi'r safleoedd mwyaf addas i'w cynnwys yn yr RLDP i ddiwallu anghenion safle a nodwyd ar gyfer defnydd preswyl, cyflogaeth a chymysg.
PC7	Cyflenwad Tir ar gyfer Tai	Mae'r Papur Cefndir hwn yn edrych ar ffynonellau posibl a realistig y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai dros gyfnod yr RLDP 2018 – 2033. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r papurau cefndir cysylltiedig eraill, gan gynnwys y Cyd-Astudiaeth Argaeledd Tir Ar Gyfer Tai.
PC8	Cydastudiaeth Flynyddol Argaeledd Tir ar Gyfer Tai Conwy (2018)	Dyma'r Adroddiad blynyddol Cydastudiaeth Argaeledd Tir Ar Gyfer Tai ac mae'n darparu data tueddiadau hanfodol sy'n ymwneud â darpariaeth tai a nifer sy'n manteisio arnynt. Mae'r Cyd-Astudiaeth Argaeledd Tir Ar Gyfer Tai yn ffynhonnell ddata dda i ddeall capasiti'r diwydiant adeiladu tai a llywio lefelau twf.
PC9	Asesiad y Farchnad Dai Leol (LHMA)	Mae'r adroddiad hwn yn ystyried tystiolaeth am angen o ran tai a galw yng Nghonwy a bydd yn llywio gwaith paratoi strategaethau lleol gan gynnwys polisiâu cynllunio a thai. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r papurau cefndir cysylltiedig eraill, gan gynnwys BP08 y Cyd-Astudiaeth Argaeledd Tir Ar Gyfer Tai, BP11 Cyfrifiad Anghenion o ran Tai Fforddiadwy a BP10 Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy.
PC10	Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy	Bydd yr Astudiaeth yn cynghori am y targed(au) a'r trothwy(au) mwyaf uchelgeisiol ond cyraeddadwy ar gyfer tai fforddiadwy sy'n adlewyrchu'n llawn argaeledd amrywiaeth o gyllid tuag at dai fforddiadwy ac sy'n adlewyrchu anghenion isadeiledd blaenoriaethol. Bydd yr astudiaeth yn asesu'r opsiynau posibl ar gyfer cynyddu lefelau tai fforddiadwy drwy amryw opsiynau hefyd, a fydd yn llywio polisi diweddarach.
PC11	Cyfrifiad Anghenion Tai Fforddiadwy	Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei RLDP, rhaid iddo egluro sut mae'r polisi perthnasol wedi'i lunio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd. Mae'r papur cefndir hwn yn darparu tystiolaeth a chyfiawnhad ar gyfer y dull polisi yn yr RLDP sy'n

		<p>ymwneud â'r targed tai fforddiadwy. Bydd y papur hwn yn bwysig wrth asesu'r holl systemau posibl o wella cyflenwi tai fforddiadwy, gan gynnwys archwilio gwerthoedd tai i gynorthwyo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae'r cyfrifiad anghenion tai fforddiadwy yn edrych ar angen presennol a phosibl yn y dyfodol o ran tai fforddiadwy, ac mae'n cyfrifo amcangyfrif blynyddol o faint o aelwydydd fydd angen help i gael mynediad i dai fforddiadwy yn ychwanegol at aelwydydd sydd eisoes yn cael help.</p> <p>Mae'n bwysig nodi bod y ffigur gwaelodlin angen o ran tai fforddiadwy yn ymwneud â'r gofyniad i adeiladu cartrefi newydd – a hefyd am aelwydydd mewn angen. Yn ogystal â darparu tai fforddiadwy newydd, mae amrywiaeth o ffyrdd eraill o helpu'r aelwydydd hyn nad oes angen gwaith adeiladu newydd – er enghraifft trwy leoli mewn stoc tai cymdeithasol presennol; darparu cynlluniau prynu â chymorth fel yr un a ddarperir drwy'r gofrestr Camau Cyntaf; trawsnewid neu addasu stoc presennol i ddiwallu anghenion tenantiaid yn well (o stoc yn y sector cymdeithasol a'r sector preifat) a thrwy gefnogaeth ariannol i rentu yn y sector preifat (budd-dal tai). Er bydd rhai aelwydydd sydd wedi'u nodi fel bod angen help arnynt i gael mynediad i dai fforddiadwy heb gartref ar hyn o bryd, bydd gan y rhan fwyaf lety, er ei fod mewn tai annigonol. Nid yw hyn yn negyddu'r angen i ddarparu nifer sylweddol uwch o opsiynau tai fforddiadwy (yn enwedig wrth i gostau tai barhau i gynyddu ac wrth i'r rhai ag incymau is gael eu gwasgu allan o'r farchnad), ond mae'n awgrymu bod angen defnyddio dulliau ar wahân i adeiladu tai newydd ar gyfer deiliadaeth cymdeithasol a chanolradd i ddiwallu'r angen hwn. Bydd y BP hwn yn hanfodol o ran deall hyn.</p>
PC12	Tai Amlfeddiannaeth (HMO)	Yng ngoleuni newidiadau i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd sy'n ymwneud â Thai amlfeddiannaeth a'r angen i ddarparu ar gyfer llety aelwydydd sengl, caiff y polisi presennol ei adolygu yng ngoleuni canlyniadau'r papur hwn.
PC13	Cynllun Graddol	Ei bwrpas yw darparu rhagor o dystiolaeth a chyfiawnhad dros ddatblygu safleoedd tai a chyflogaeth yn raddol rhwng 2018 a 2033.
PC14	Capasiti'r Diwydiant Adeiladu Tai	Mae'n hanfodol bod gan y Cyngor ddealltwriaeth o gapasiti'r diwydiant adeiladu tai. Bydd hyn caniatáu i lefel gadarn a phriodol o gyflenwad tai gael ei ddarparu gan alluogi'r Cyngor i fynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â'r newid o ran amcanestyniad poblogaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Er mwyn helpu i gael y ddealltwriaeth hon, bydd y Cyngor yn cysylltu â datblygwyr a pherchnogion tir i ddeall materion capasiti.
PC15	Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr	Mae'n nodi bod gan Gonwy angen presennol i ddarparu 1 safle tramwy i ddarparu ar gyfer 7 llain.
PC16	Brexit a'r Economi Wledig	Mae'r BP yn archwilio effaith bosibl Brexit ar yr economi leol yn benodol ac effaith arallgyfeirio ffermydd a goblygiadau ar bolisi yn yr RLDP.
PC17	Cyflenwad Tir Cyflogaeth	Mae'r Adroddiad Cyflenwad Tir Cyflogaeth yn astudiaeth o'r holl safleoedd cyflogaeth dros 0.1 hectar a gaiff eu hystyried yn addas ar gyfer datblygiad swyddfa, diwydiannol neu warws. Mae hwn yn ymarfer parhaus a chaiff ei ddiweddarau bob blwyddyn. Mae'r astudiaeth yn monitro nifer sy'n manteisio ar dir cyflogaeth, ei ddyraniad a'i ddsbarthiad ac mae'n galluogi'r Cyngor i ddechrau penderfynu'r graddau y gall y gofynion cyflogaeth a nodir yn yr RLDP gael eu bodloni'n realistig drwy ddarpariaeth bresennol.
PC18	Adolygiad Tir Cyflogaeth (gan gynnwys Gyrrwyr Economaidd Rhanbarthol)	Mae'n asesu nifer o ragolygon cyflogaeth i benderfynu ar lefel y tir cyflogaeth gofynnol dros gyfnod yr RLDP. Mae'r BP hefyd yn nodi'r math o ddatblygiad dosbarthu busnes gofynnol. Mae'r BP hefyd wedi rhoi ystyriaeth i oblygiadau Bargen Dwf Gogledd Cymru a Strategaeth Economaidd Conwy o ran angen cyflogaeth a gofyniad tir.
PC19	Dadansoddiad Marchnad Masnachol	Mae'r BP yn ystyried y lleoliadau gorau ar gyfer cyflogaeth ar ôl ymgynghori â gweithwyr presennol yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd y gwaith yn cynorthwyo'r lleoliadau tir cyflogaeth a llywio'r strategaeth twf.
PC20	Asesiad o Anghenion Sgiliau	Mae'r BP hwn yn ystyried y canlyniad a nodir yn Strategaeth Economaidd Conwy i ddeall yr anghenion ar gyfer cyfadranau addysg uwch a'r potensial ar gyfer campws addysg uwch newydd. Bydd canlyniadau'r BP yn llywio'r angen am dir/polisi.
PC21	Ardaloedd Llety Gwyliau Cynradd	Mae'r papur hwn yn dadansoddi'r polisiau a darpariaeth bresennol ar gyfer llety gwyliau yng nghanolfan dwristiaeth Llandudno. Caiff darpariaeth llety gwyliau yn yr Ardaloedd Llety Gwyliau Cynradd ei hadolygu yn unol â'r polisiau sydd wedi'u sefydlu ar

		gyfer ardaloedd llety gwyliau, a bydd canlyniadau'r arolwg yn llywio unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ardaloedd hyn yn yr RLDP.
PC22	Strategaeth Twf Twristiaeth	Bydd yn asesu'r galw am gyfleusterau twristiaeth (gan gynnwys twristiaeth antur) a llety drwy'r Fwrdeistref Sirol. Bydd y BP yn llywio polisi posibl a dynodiadau a dyraniadau defnydd tir.
PC23	Gweledigaeth Twristiaeth Llandudno	Bydd yn nodi'r cyfeiriad yn y dyfodol ar gyfer Llandudno mewn partneriaeth gyda'r sector. Gallai'r Weledigaeth arwain at angen i nodi polisi ategol a dyraniadau defnydd tir.
PC24	Astudiaeth Capasiti Manwerthu	Mae'r astudiaeth yn ystyried ystategau manwerthu allweddol a gwariant yn y Fwrdeistref Sirol ac mae'n nodi cyfleoedd a chyfyngiadau sy'n effeithio ar bob anheddiad. Yna mae'n darparu asesiad o sut i ddarparu orau ar gyfer gofynion y dyfodol ar gyfer gofod llawr manwerthu. Mae'r Astudiaeth Manwerthu hefyd yn nodi nifer o gamau gweithredu a argymhellir i'r Cyngor eu cyflawni o ran polisi cynllunio.
PC25	Gwiriadau Iechyd Canolfan Fanwerthu	Mae'r BP hwn yn asesu iechyd cyffredinol y canol trefi yn erbyn amrywiaeth o feini prawf, gan gynnwys lefelau swyddi gwag, hygrychedd ac ati. Bydd yn llywio'r polisiâu manwerthu a strategaethau adfywio ar gyfer yr RLDP.
PC26	Hierarchaeth Fanwerthu	Mae gan y CDLI presennol Hierarchaeth Fanwerthu sy'n seiliedig ar feini prawf cynaliadwyedd. Defnyddir yr hierarchaeth mewn polisi i sicrhau bod manwerthu mawr wedi'i gyfeirio at y trefi mwyaf cynaliadwy.
PC27	Ardaloedd Manwerthu Cynradd ac Eilradd	Mae dau brif bwrpas i'r papur hwn; egluro'r rhesymeg sy'n sail i ffurfio'r hierarchaeth fanwerthu, ac adolygu a rhesymoli'r ardaloedd siopa presennol yn y CDLI a fabwysiadwyd, gan gynnig diwygiadau a ffiniau newydd lle bo'n briodol.
PC28	Asesiad Mannau Agored	Mae'r papur hwn yn dadansoddi ac adolygu darpariaeth bresennol mannau agored yng Nghonwy a bydd yn cynnwys safleoedd newydd arfaethedig yn yr RLDP. Bydd y BP hefyd yn llywio strategaethau twf posibl oherwydd pwysigrwydd creu ffyrdd o fyw iach ac actif.
PC29	Asesiadau Lleiniau Gwyrdd	Mae'r adroddiad hwn yn adolygu rôl Rhwystrau Glas a Lletemau Glas dynodedig o fewn cynlluniau datblygu presennol sy'n cwmpasu Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae hefyd yn ceisio nodi unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i Rwystrau/Lletemau Glas presennol o ganlyniad i ymrwymadau blaenorol neu ddyraniadau tai arfaethedig. Yn olaf mae'n ceisio nodi unrhyw ardaloedd newydd sydd angen dynodiad oherwydd perygl o ymgyfuniad neu resymau tirwedd eraill.
PC30	Adroddiad Galw a Chyflenwad Safleoedd Lotments	Pwrpas y papur cefndir hwn yw amlinellu lefel bresennol darpariaeth lotments, nodi'r ardaloedd lle mae'r galw mwyaf am lotments ac asesu unrhyw safleoedd lotments newydd posibl.
PC31	Adroddiad Galw a Chyflenwad Safleoedd Claddfeydd	Pwrpas y papur cefndir hwn yw amlinellu lefel bresennol darpariaeth claddfeydd, nodi'r ardaloedd lle mae galw am ddarpariaeth claddfeydd ac asesu unrhyw safleoedd newydd posibl.
PC32	Ardaloedd Tirwedd Arbennig	Mae'r Papur Cefndir hwn yn darparu trosolwg byr o brosesau sy'n rhan o nodi'r ardaloedd cymeriad tirwedd yn Ardal y Cynllun a'r rhesymeg a chyfiawnhad dros y meini prawf a nodir ym Mholisi NTE/5 yr RLDP. Roedd Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi'u cynnwys yng Nghynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn, Cynllun Fframwaith Gwynedd a Chynllun Datblygu Unedol gyda'r bwriad o ychwanegu rhagor o gryfder i ddiogelu'r ardaloedd gwledig heb eu datblygu. Ym mhob un o'r cynlluniau hyn, roedd yr Ardaloedd Cymeriad yn cwmpasu holl Ardal y Cynllun y tu allan i ffiniau'r anheddiad a ddiffiniwyd. Yn y dyfodol, cynigir defnyddio LANDMAP fel sail ar gyfer asesiadau effaith tirwedd.
PC33	Asesiad Ynni Adnewyddadwy	Darparu sylfaen dystiolaeth Ynni Adnewyddadwy cadarn a fydd yn llywio gwaith cynhyrchu'r RLDP a ffurfio'r gwaelodlin ar gyfer monitro Ynni Adnewyddadwy yn y dyfodol.
PC34	Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Conwy (SFCA)	Mae llifogydd yn ddigwyddiad naturiol sy'n anodd ei ragweld yn aml. Gall beri risg uniongyrchol i fywyd dynol ac achosi difrod helaeth i eiddo ac isadeiledd. Mae'r bygythiad gan newid hinsawdd yn debygol o gynyddu'r risg o lifogydd arfordirol ac afonol oherwydd rhagwelir y bydd lefel y môr yn codi a rhagwelir cawodydd glaw mwy dwys. Felly mae'r perygl o lifogydd yn ystyriaeth berthnasol sy'n dylanwadu ar benderfyniadau rheoli datblygu a dyraniadau safle'r CDLI. Nod yr SFCA yw llywio defnydd o'r prawf cymalog i safleoedd datblygu ymgeisiol yn yr RLDP. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i fabwysiadu'r egwyddor

		ragofalus a gaiff ei hyrwyddo mewn canllawiau cynllunio Cenedlaethol i gyfeirio datblygiad oddi wrth ardaloedd lle ceir perygl mawr o lifogydd.
PC35	Perygl Llifogydd a Chyfleoedd i Ddatblygu i'r Dwyrain o'r Fwrdeistref Sirol	Prif bwrpas yr astudiaeth hon yw asesu'r potensial ar gyfer datblygiad yn yr ardal perygl llifogydd drwy hyrwyddo datrysiadau dylunio arloesol. Bydd y papur yn llywio'r strategaeth twf a ffefrir, ond yn y pen draw bydd yn asesu'r potensial ar gyfer darparu datblygiad yn yr ardal hon oherwydd lefelau uchel o berygl llifogydd presennol.
PC36	Rheoli Gwastraff	Mae llawer o yrwyr newid o ran sut rydym yn rheoli ein gwastraff. Mae Cyfarwyddbau Ewropeaidd a Chanllawiau Cenedlaethol a gweithio ar lefel rhanbarthol yn cyflwyno newid o ran dulliau rheoli gwastraff. Pwrpas y papur cefndir hwn yw gosod y cyd-destun a darparu crynodeb o'r gyrwyr hyn a materion lleol a fydd yn dylanwadu ar bolisi defnydd tir, a ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi polisiau Gwastraff yn yr RLDP.
PC37	Mwynau	Gall prosiectau adeiladu sterileiddio adnoddau cyfansymiol yn barhaol, gan olygu na fyddant ar gael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae polisiau cynllunio yn diogelu adnoddau cyfansymiol a allai fod yn werthfawr rhag cynigion datblygu a allai eu sterileiddio yn y tymor hir. Mae'r papur cefndir hwn yn egluro sut mae'r CDLI yn sicrhau bod cronfeydd wrth gefn cyfansymiol yn cael eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
PC38	Dynodiadau Treftadaeth	Mae'r Papur Cefndir hwn yn darparu trosolwg byr o'r dynodiadau treftadaeth statudol sydd angen eu hystyried wrth adolygu'r CDLI.
PC39	Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol	Bydd y BP yn llywio'r rhesymeg a'r cyfiawnhad dros y polisi Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol sy'n ceisio cadw adeiladau heb eu rhestru sydd o ddiddordeb hanesyddol/pensaernïol.
PC40	Cynllun Teithio Llesol	Mae'n asesu'r llwybrau dulliau amgen (beicio, cerdded ac ati) drwy'r Fwrdeistref Sirol ac mae'n nodi bylchau allweddol o ran y system gyffredinol. Bydd y BP yn llywio'r meysydd gwelliant posibl, polisi a'r dosbarthiad gofodol.
PC41	Strategaeth Cludiant Strategol Conwy	Bydd yn nodi'r ymyriadau cludiant strategol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol.
PC42	Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	Mae'r papur cefndir hwn yn darparu tystiolaeth a chyfiawnhad ar gyfer y dull polisi yn yr RLDP sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Bydd yn llywio'r strategaeth dwf a ffefrir yn unol â TAN20.
PC43	Cydweithio gydag Awdurdodau cyfagos	Mae'r papur cefndir hwn yn nodi'r cydweithio a wneir gyda Chynghorau cyfagos ac awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi'r RLDP. Mae hyn yn cynnwys materion trawsffiniol fel yr economi, tai forddiadwy a chludiant.
PC44	Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Effaith Iechyd/Gofal Sylfaenol	Bydd y BP yn asesu'r materion capasiti presennol a deall effaith twf a ragwelir ar Ofal Sylfaenol. Bydd y BP yn penderfynu a oes angen tir/goblygiadau i gynorthwyo â lefelau twf.
PC45	Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Effaith Addysg	Bydd y BP yn asesu'r materion capasiti presennol a deall effaith twf a ragwelir ar addysg. Bydd y BP yn penderfynu a oes angen tir/goblygiadau i gynorthwyo â lefelau twf.
PC46	Cynlluniau Lleoedd	Mae'r papur hwn yn nodi'r dull ymlaen a statws Cynlluniau Lleoedd yng Nghonwy. Bydd Cynlluniau Lleoedd yn nodi'r canllawiau mwy manwl thematig neu sy'n benodol i safleoedd i ategu'r polisiau a'r cynigion a gyflwynir mewn CDLI, bydd Cynghorau Tref a Chymuned yn ymgysylltu â chymunedau lleol, busnes a'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ddarparu Cynlluniau Lleoedd yn lleol. Bydd Cynlluniau Lleoedd yn Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd a rhaid iddynt fod yn unol ag ef. Bydd Cynllun Lleoedd pan gaiff ei gynhyrchu yn unol â'r canllawiau yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Atodiad 2 Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLI Newydd)

Matrics Cydymffurfio – Sut y bydd Gweledigaeth a Strwythur arfaethedig y CDLI Newydd yn darparu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r SDyfodol, y 5 Egwyddor Cynllunio Allweddol, Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych, Cynllun Gofodol Cymru a Bargen Twf y Gogledd.

'Gweledigaeth' y CDLI Newydd

Erbyn 2033, bydd Sir Conwy yn parhau fel ardal sy'n ffynnu yng Ngogledd Cymru gyda' economi gynaliadwy wedi'i 'adeiladu ar egwyddorion sydd yn hyrwyddo tyfiant ac yn uchafu cyfleon i bawb gan ddiogelu tirwedd â threftadaeth unigryw yr ardal ynghyd a'u 'asedau amgylcheddol ehangach. Bydd adnewyddu'r ffocws ar gynllunio lle ac adfywio yn sicrhau bod datblygiadau o safon uchel yn cefnogi creu llefydd iach â dirgrynol gyda thai, cyflogaeth â thyfiant isadeiledd yn gyfeiriol at leoliadau cynaliadwy sydd yn cwrdd ac anghenion preswylwyr, gweithwyr ac ymwelwyr. Drwy gwell mewnfuddsoddiad, darpariaeth isadeiledd ac amddiffyniad cryf o'r iaith Gymraeg, bydd Conwy yn dod yn beiriant twf i economi â diwylliant Gogledd Cymru. Mi fydd yn le cystadleuol, mwy cynwysedig, yn cynnig safon byw da i bawb, gyda gwell ansawdd amgylcheddol â llesiant ar gyfer y genhedlaeth hon ac i'r dyfodol. Golyga hyn y bydd gan Conwy rwydwaith o drefydd â phentrefydd llewyrchus ynghyd a economi wledig ddichonadwy sydd yn gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd naturiol.

'Strwythur' Arfaethedig y CDLI Newydd - Themâu Thematig a Meysydd Pwnc

Creu lleoedd	Cymdeithasol	Yr Economi	Yr Amgylchedd a Diwylliant
Creu Mannau Cynaliadwy Dylunio Da Hybu Lleoedd Iachach Y Gymraeg Gwneud Dewisiadau Gofodol Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gweledig	Tai Canolfannau Manwerthu a Masnachol Cyfleusterau Cymunedol Mannau Hamdden Trafnidiaeth	Datblygu Economaidd Twristiaeth Yr Economi Wledig Seilwaith Cludiant Ynni Mwynau & Gwastraff	Tirwedd Ardaloedd Arfordirol Yr Amgylchedd Hanesyddol Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth Dwr, Aer, Seinwedd a Golau Llifogydd Dadrsgio

		Gweledigaeth a Strwythur Arfaethedig y CDLI Newydd			
		Creu lleoedd	Cymdeithasol	Yr Economi	Yr Amgylchedd a Diwylliant
Saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Ffyniannus	✓		✓	
	Cyfartal				
	Gwydn	✓	✓		✓
	Iachach	✓	✓		✓
	Cymunedau Cydlynus	✓	✓	✓	✓
	Bywiog	✓	✓	✓	
	Byd-Eang Gyfrifol	✓	✓	✓	✓
Y Pum Egwyddor Gynllunio Allweddol	Datblygu iawn yn y Lle iawn	✓	✓	✓	✓
	Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach	✓	✓		✓
	Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau	✓			✓
	Creu a Chynnal Cymunedau	✓	✓	✓	✓
	Achub ar Bob Cyfle i Warchod yr Amgylchedd	✓			✓
Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych	Lles Diwylliannol	✓			✓
	Lles Economaidd	✓		✓	
	Lles Amgylcheddol	✓			✓
	Lles Cymdeithasol	✓	✓		
Cynllun Gofodol Cymru	Canolbwyntio twf yn y Prif Aneddiadau Cynradd a'r Prif Aneddiadau	✓	✓	✓	✓
Bargen Twf y Gogledd	Y Gogledd Clyfar – arloesi mewn sectorau o werth uchel i wella perfformiad economaidd	✓		✓	
	Y Gogledd Cysylltiedig – gwella'r seilwaith trafndiaeth a digidol i wella cysylltedd i'r rhanbarth ac oddi mewn iddo	✓		✓	
	Y Gogledd Gwydn – cadw ein pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau i sicrhau twf cynhwysol	✓	✓	✓	✓